



CPS

Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Genethod

2012-2013

Cynnwys

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus	2
Crynodeb weithredol	3
Cyflwyniad	9
Trais yn erbyn menywod a merched	11
Trais domestig	19
Aflonyddu	35
Treisio	37
Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)	46
Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod	49
Cam-drin plant	52
Masnachu mewn pobl	58
Puteindra	60
Pornograffi ac anweddustra	64
Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal	
Rhestr termau	75
Rhestr acronymau	81

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Mae gwella ein hymagwedd tuag at erlyniadau Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) wedi bod yn flaenoriaeth i'r CPS ers nifer o flynyddoedd, felly rwy'n falch iawn fod ein perfformiad wedi parhau i wella blwyddyn ar flwyddyn. Am y tro cyntaf, mae tri o bob pedwar erlyniad VAWG nawr yn sicrhau euogfarn. Mae erlyniadau trais domestig, trais rhywiol a throseddau rhyw wedi cyrraedd eu cyfradd euogfarn uchaf hyd yn hyn, am yr ail flwyddyn yn olynol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'n ffocws wedi ei hogi i ddeall gwendid a brawychiad dioddefwyr VAWG. Mae cyfuniad o ffactorau wedi arwain at y gwelliannau hyn. Mae pob ardal CPS wedi integreiddio VAWG i'w gwaith prif ffrwd trwy Gydlynwyr Ardal VAWG, gyda pherchnogaeth gadarn gan eu Prif Erlynyddion y Goron. Mae'r broses Sicrwydd VAWG chwe-misol a gyflwynwyd yn 2011 hefyd wedi bod yn allweddol o ran sicrhau gwelliant parhaus mewn cyfraddau euogfarn ac ansawdd erlyniadau troseddau VAWG.

Rydym wedi gweithio i herio'r mythau ac ystrydebau ynglŷn â dioddefwyr trais, gan ddethol a hyfforddi erlynyddion trais arbenigol i fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar rinweddau i achosion. Cefnogwyd ein gwaith yn y maes hwn gan yr adroddiad gan Alison Levitt QC, *Charging perverting the course of justice and wasting police time in cases involving allegedly false rape and domestic violence allegations*, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2013, a ganfu fod cyhuddiadau ffug yn y sefyllfaoedd hyn yn brin.

Yn 2012-13, cyflawnom waith penodol ar y materion anodd sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin, priodas dan orfod, trais seiliedig ar urddas ac Llurgunio organau rhywiol menywod.

Cynhaliais gyfres o sesiynau ford gron gyda rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys grwpiau dioddefwyr a'r cyfryngau, i helpu datblygu canllawiau i'r heddlu ac erlynyddion ar gam-drin plant yn rhywiol. Rydym wedi cyhoeddi'n benodol ein bod yn symud ffocws asesiadau o achosion ar hygredd y cyhuddiad a'r sawl a ddrwgdybir, yn hytrach na'r dioddefwr. Rydym hefyd wedi sefydlu Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol newydd gydag ACPO i adolygu achosion o gam-drin plant yn rhywiol hanesyddol.

Mae'r gefnogaeth gan rhanddeiliaid eleni wedi bod yn aruthrol, nid yn unig ar gam-drin plant yn rhywiol, cam-drin mewn perthynas ardegau a llurgunio organau rhywiol menywod, ond hefyd trwy gyfarfodydd chwarterol o'r Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG a'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol.

Er bod y CPS wedi sicrhau cynnydd arwyddocaol ar VAWG yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae yna fwy i'w wneud o hyd, felly rydym yn dal i fod yn ymroddedig i adeiladu ar ein cyflawniadau, gan ddysgu o'n camgymeriadau a gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau gwell gwasanaeth i ddioddefwyr y troseddau atgas hyn.

Keir Starmer QC
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus
Gorffennaf 2013

Crynodeb Weithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ddadansoddiad o'r prif faterion erlyn ym mhob maes Trais yn Erbyn Menywod (VAWG) – trais domestig, treisio, troseddau rhywiol, masnachu mewn pobl, puteindra, priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd, llurgunio organau rhywiol menywod, cam-drin plant a phornograffi. Defnyddir nifer o astudiaethau achos i ddangos rhai arferion da o Ardaloedd.

Yn unol â pholisi llywodraethol, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau.

Gellir dod o hyd i'r data sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn ar wefan y CPS, yn yr adran Cyhoeddiadau dan [Atebolrwydd cyhoeddus a chynhwysiant](#) (add link).

Yr adroddiad VAWG hwn yw'r cyntaf fydd yn adrodd ar gyfraddau euogfarn VAWG yn hytrach na chyfraddau athreuliad, a ddefnyddiwyd mewn fersiynau cynharach, i'w wneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Trais yn erbyn menywod a merched

Mae VAWG yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r CPS a'r llywodraeth fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Trawslywodraeth VAWG, a oruchwylir gan y Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

Ers cyflwyno'r sustem Sicrwydd VAWG yn Ionawr 2011, rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o VAWG erioed, gan gyrraedd 74% o ddeilliannau llwyddiannus yn 2012-13¹. Gwellodd wyth o'r 13 o Ardaloedd CPS euogfarnau trais domestig, fe wellodd chwech euogfarnau trais rhywiol ac roedd wyth wedi gwella euogfarnau troseddau rhyw².

Cefnogir Ardaloedd gan gydlynwyr VAWG lleol, sy'n darparu cyfeiriad strategol a Sicrwydd VAWG ac yn gweithio gyda grwpiau cymuned lleol trwy Baneli Craffu a Chynhwysiant Lleol (LSIPau). Mae asesiad o LSIPau ac ymgysylltiad cymunedol wedi darparu ystod o arfer da wedi ei rannu ar draws Ardaloedd:

- Deliodd yr holl LSIPau Ardal â VAWG yn 2012-13; deliodd rhai ag achosion VAWG yn gyffredinol, rhaid â thrais domestig ac/neu dreisio ac eraill â materion ethnigrwydd mewn achosion VAWG;
- Cynhaliwyd detholiad o gynadleddau a chyfarfodydd VAWG gyda dioddefwyr yn lleol, yn amrywio o gam-drin domestig un rhyw i briodas dan orfod a llurgunio organau rhywiol menywod (FGM);
- Datblygwyd bwletinau lleol VAWG pellach.

¹ Mae cyfraddau euogfarn VAWG yn cynnwys trais domestig, treisio a throseddau rhywiol.

² Mae unrhyw gyfeiriad i'r nifer o Ardaloedd yn gwella eu cyfraddau euogfarn, yn 2012-13, yn seiliedig ar Ch4 2012-13 gyda Ch4 2011-12, yn seiliedig ar ddata o'r broses Sicrwydd VAWG, oni bai y nodir fel arall.

Trais domestig

- Rhwng 2005-6 a 2012-13, mae cyfraddau euogfarnau wedi codi o 60% i 74% - cynnydd o 14 pwynt canrannol (ppt)³ yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 1 ppt dros y flwyddyn ers 2011-12, gan gyrraedd y gyfradd euogfarn uchaf erioed i'w gofnodi;
- Mae ardaloedd sydd wedi gwella o ran cyfraddau euogfarnau trais domestig hefyd wedi gwella perfformiad ar bob erlyniad – mae trais domestig wedi profi i fod yn fesur o berfformiad da ar draws y Gwasanaeth;
- Gwellodd wyth o Ardaloedd eu deilliannau erlyn yn y flwyddyn ddiwethaf;
- Mae'r gyfran o achosion trais domestig⁴ wedi parhau i fod yr un fath ers 2011-12 ar 8.9%⁵ ac er y cafwyd lleihad yn y nifer o 11% yn ystod yr un cyfnod, i 70,702 o erlyniadau, mae hyn yn adlewyrchu'r dirywiad cyffredinol yn y nifer o erlyniadau yn y llysoedd Ynadon dros yr un cyfnod;
- Cododd y gyfran o bledion euog eto o 1ppt i 68.5% – mae 92% o bob canlyniad llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog;
- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isaf erioed, yn 20% o'r holl achosion trais domestig a erlynwyd;
- Cyhoeddwyd Rhestr Wirio Cyhuddo a Thystiolaeth yr ACPO/CPS yn Nhachwedd 2012;
- Yn dilyn y Panel Craffu Cenedlaethol dan arweiniad y DPP ar gam-drin mewn perthnasau arddegau yng Ngorffennaf 2012, mae camau yn cael eu rhoi ar waith yn 2013-14.
- Awgrymodd ymchwil fod cyhuddo achosion trais domestig wedi cynyddu darfyddiad cam-drin mewn achosion a gefnogir gan IDVAau – profodd 72% o ddiodefwyr mewn achosion a gyhuddwyd darfyddiad cam-drin, gan godi i 74% pan y'i cheir yn euog;
- Mae astudiaethau achos o nifer o Ardaloedd CPS yn arddangos sut mae Ardaloedd, yn arbennig i rai gyda'r perfformiad uchad, wedi gwella deilliannau erlyniadau - yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer detholiad o ddiodefwyr, gan gynnwys diodefwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig; cam-drin mewn perthynas arddegau; taclo cyflawnwyr mynych.

Aflonyddu

- Cychwynwyd erlyniadau ar gyfer 8,648 o droseddau aflonyddu a stelcian yn 2012-13; mae hyn yn ostyngiad o 7.5% o 2011-12 pan gychwynwyd 9,345 o erlyniadau;
- Roedd yna 91 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd, ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar ddiwedd Tachwedd 2012;
- Cychwynwyd erlyniadau ar gyfer 10,275 o doriadau troseddau gorchymyn ataliol, cynnydd o 18% o 8,733 yn 2011-12;
- O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcian, roedd 5,059 (59%) yn ymwneud â thrais domestig – lleihad o 12% o 5,766 yn y flwyddyn flaenorol;

³ Cyfeirir at newidiadau mewn canrannau fel newidiadau i bwyntiau canrannol (ppt).

⁴ Llwyth achosion trais domestig fel % o'r holl erlyniadau.

⁵ Codi i 9.5% yn Ch4 2012-13

- Roedd 67 o'r erlyniadau yn ymwneud â thrais domestig dan y troseddau stelcian newydd a gyflwynwyd ar ddiwedd Tachwedd 2012;
- Roedd 7,374 (72% o'r holl doriadau gorchmynion ataliol) yn ymwneud â thrais domestig; cynnydd o 16% o 6,363 yn 2011-12;
- O'r 313 o doriadau o orchmynion ataliol (a wnaed ar ryddfarn), roedd 220 (70%) mewn achosion trais domestig;
- Dechreuodd 5,563 o doriadau gorchmynion peidio aflonyddu erlyniad, o gymharu â 5,323 yn y flwyddyn flaenorol, 79% ohonynt ar gyfer trais domestig;
- Lansiodd hyfforddiant ar seiber stelcio yn Nhachwedd 2012 yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar stelcio; ac mae hyfforddiant pellach ar stelcio ar y gweill yn 2013-14.

Treisio

- Mae'r [ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#) yn dynodi ym mlwyddyn galendr 2012 y cafwyd 2,822 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd⁶, wedi eu herlyn am dreisio yn y llysoedd ynadon, gyda 2,765 wedi eu hanfon i Lys y Goron ar gyfer achos. Yn 2012, dyfarnwyd 1,145 o droseddwr yn euog am dreisio, gan arwain at gyfradd erlyniad i euogfarn yn 2012 o 41% - cynnydd o 40% yn 2011; nid yw'r gymhareb hon yn ystyried diffynyddion a erlynwyd am dreisio ond a'u cafwyd yn euog yn Llys y Goron o drosedd arall;
- Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd a'u llumanu fel treisio o'r cychwyn, ond hefyd achosion ble cafwyd euogfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar euogfarnau achosion a gyhuddwyd ac a gafwyd yn euog o dreisio. Gosodir y faner o gychwyn yr achos; bydd y faner yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i osod cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny ble'r oedd yr euogfarn derfynol am dreisio.
- Rhwng 2007-8⁷ a 2012-13 mae cyfraddau euogfarnau'r CPS⁸ wedi codi o 57.7% i 63.2%, y gyfradd euogfarn uchaf i'w chofnodi erioed gan y CPS ar gyfer treisio ers dechrau cadw cofnod a chynnydd o 5.5pnt yn ystod y cyfnod chwe blynedd hwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 0.7pnt dros y flwyddyn ers 2011-12;
- Mae'r nifer o ddiffynyddion a erlynir (3,692) wedi gostwng ychydig yn y flwyddyn ddiwethaf o 3,864 (lleihad o 4.5%); o gymharu â lleihad cyffredinol yn yr erlyniadau ditiadwy yn unig i gyd yn Llysoedd y Goron o 3.9%; fodd bynnag, yn 2012-13, roedd y rhan fwyaf o'r Ardaloedd wedi⁹ cynyddu'r gyfran o achosion a erlynwyd gan y CPS

⁶ Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Pan ystyrir mwy nag un drosedd mewn achos llys neu ddiffynyddiad rhybuddio, tybir mai'r drosedd a fyddai/ a wnaeth ddeni'r deilliant deddfryd mwyaf llym yw'r Brif drosedd ac mae'r troseddau eraill yr ymdrinnir â nhw yn yr achos hwnnw'n cael eu hanwybyddu. Os yw dwy drosedd yn yr un achos yn denu'r un ddedfryd, y drosedd sydd â'r ddedfryd statudol fwyaf a dybir yw'r 'Brif drosedd'.

⁷ Cychwynnodd cofnodi achosion treisio yn hwyrach nag ar gyfer trais domestig

⁸ Deilliannau o gyhuddo i euogfarn.

⁹ Cynyddodd 10 o Ardaloedd eu cymhareb Cyhuddo i Ddim Gweithredu Pellach

yn dilyn atgyfeiriad gan yr heddlu ac mae llwyth achosion¹⁰ wedi bod yn sefydlog yn y flwyddyn ddiwethaf ar 9.8%;

- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isaf erioed, yn 14% o'r holl achosion treisio a erlynwyd;
- Aseswyd sampl o tua 25% o achosion treisio ym mhob Ardal yn fanylach yn rhan o'r system Sicrwydd VAWG yn nodi arferion da a gwelliannau lleol ddwywaith y flwyddyn;
- Erbyn Ionawr 2013, roedd 819¹¹ o erlynyddion arbenigol treisio wedi eu hyfforddi ar yr ymagwedd seiliedig ar deilyngdod i ddelio ag erlyniadau treisio – cynhaliwyd cyrsiau pellach yn Chwefror a Mawrth 2013 gan hyfforddi 54 o arbenigwyr pellach;
- Awgrymodd adroddiad ar gyhuddiadau a honnwyd i fod yn gau o dreisio a thrais domestig, yn dilyn asesiad 17 mis o erlyniadau ar gyfer gwyrddroi cwrs cyfiawnder a gwastraffu amser yr heddlu, fod achosion o'r fath yn brin - yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd, cafwyd oddeutu 5,651 o erlyniadau ar gyfer treisio, ond dim ond 35 ar gyfer gwneud honiadau ffug o dreisio. Roedd tua 111,891 o erlyniadau am drais domestig, ond dim ond chwech am wneud camgyhuddiadau o drais domestig.
- Mae nifer o astudiaethau achos yn arddangos sut mae Ardaloedd, yn arbennig y rhai gyda'r perfformiad cryfaf, wedi gwella deilliannau erlyn yn cynnwys gwaith mewn Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO), cyfathrebu gyda dioddefwyr ac achosion ieuenctid.

Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

- Erlynwyd 7,771 o ddiffynyddion yn 2012-13 am droseddau rhywiol, heblaw treisio; lleihad o 8,334 yn 2011-12; fodd bynnag, fe gynyddodd y llwyth achosion¹²;
- Cododd y gyfran o ddeilliannau llwyddiannus i 76.8%, cynnydd o 3pnt ers 2007-08 a'r gyfradd euogfarnau uchaf erioed i'w chofnodi hefyd;
- Darperir nifer o astudiaethau achos yn arddangos achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol ble roedd camddefnydd o bŵer.

Priodas dan orfod, trais seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod

- Yn 2012-13, erlynwyd 41 o ddiffynyddion¹³ am droseddau yn ymwneud â phriodas dan orfod, tebyg i'r llynedd ar 42; gyda 70.7% yn llwyddiannus, cynnydd o 16pwynt canrannol o 2011-12;
- Erlynwyd 200 o ddiffynyddion am droseddau yn ymwneud â thrais seiliedig ar urddas (HBV), cynnydd o 172 y llynedd, gyda 63% yn cael euogfarn, cynnydd o 13pnt¹⁴;
- Pasiwyd deddfwriaeth newydd yn 2012 i droseddoli priodas dan orfod, gyda gweithrediad ar y gweill ar gyfer 2014;

¹⁰ Llwyth achosion treisio fel % o'r holl erlyniadau ditiadwy yn unig.

¹¹ 726 o arbenigwyr treisio Ardal, 88 CPS Direct a 5 Grŵp Troseddau Difrifol.

¹² Llwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS

¹³ Ers 2010, mae diffynyddion mewn achosion priodas dan orfod ac urddas wedi eu llumanu i alluogi asesiad o'r deilliannau. Fel gydag unrhyw system monitro newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei defnydd cywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus.

¹⁴ Fel yn nhroednodyn 12

- Mae datblygiad deunydd hyfforddi wedi ei gynllunio ar gyfer 2013-14, yn unol â gweithrediad y ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd;
- Cyflawnodd Ardaloedd ddetholiad o fentrau i wella erlyniadau, yn cynnwys cynadleddau ar briodas dan orfod a llurgunio organau rhywiol menywod;
- Cynhaliodd y Cyfarwyddwr gyfarfod bord gron ar lurgunio organau rhywiol menywod ym Medi 2012, gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr, a arweiniodd at gynllun gweithredu i sicrhau fod yr heddlu a'r CPS mewn safle gwell i ymateb i'r drosedd hon.

Cam-drin plant

- Yn 2012-13 cafwyd cynnydd yn y nifer o erlyniadau troseddau dynladdiad cam-drin plant¹⁵, o 17 i 30, gyda dros 73% o ddeilliannau llwyddiannus;
- Roedd lleihad yn y nifer o droseddau yn erbyn y person (o 2,569 i 2,220); gyda deilliannau llwyddiannus yn codi o 71% i 74%, o gymharu â 2011-12;
- Gostyngodd erlyniadau troseddau rhywiol (o 4,655 i 4,051); gyda deilliannau llwyddiannus yn sefydlog ar 75.8%;
- Roedd lleihad yn y nifer o achosion cam-drin plant¹⁶ a erlynwyd yn 2012-13 o 13% o gymharu â gostyngiad o 10% yng nghyfanswm yr holl erlyniadau CPS;
- Cafwyd cynnydd mewn deilliannau llwyddiannus yn yr achosion cam-drin plant cyffredinol o 74.3% yn 2011-12 i 75.1% yn 2013-14;¹⁷
- Yn dilyn yr adolygiad o achosion cam-drin a chamfanteisio ar blant amlwg, cynhaliwyd dwy seminar gan y CPS ar gyfer erlynyddion yn 2012-13;
- Cyhoeddwyd adroddiad Savile y CPS yn Ionawr 2013;
- Cynhaliodd y Cyfarwyddwr gyfres o sgysiau ford gron gyda rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau cam-drin plant ar gyfer yr heddlu ac erlynyddion sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus o Fehefin 2013, gyda'r bwriad o gwblhau ym Medi 2013.
- Mae astudiaethau achos o Ardaloedd yn arddangos erlyniad o achosion paratoi a cham-drin plant yn rhywiol.

Masnachu mewn pobl a phuteindra

- Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl¹⁸, cofnodwyd 139 o ddiffynyddion yn 2012-13, lleihad bychan o 142 yn 2011-12; ond, cynyddodd euogfarnau o 66% i 71% yn yr un cyfnod;
- Datblygwyd rhaglen e-ddysgu erbyn Mawrth 2013 ar gyfer gweithrediad deddfwriaeth newydd yn Ebrill 2013;
- Mae astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o fasnachu mewn pobl; hybu puteindra plant; rhaglenni hel puteiniaid o gerbyd; erlyn troseddau puteindy a chymau yn ystod y Gemau Olympaidd.

¹⁵ Gweler y rhestr termau am ddiffiniadau.

¹⁶ Achosion cam-drin plant o ddynladdiad, troseddau yn erbyn y person a throseddau rhywiol.

¹⁷ Gweler troednodyn 16

¹⁸ Gweler y rhestr termau am y troseddau llumanu. Fel gydag unrhyw system monitro newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei defnydd cywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

Pornograffi

- Yn 2012-13 cafwyd gostyngiad bychan mewn erlyniadau am ddelweddau cam-drin plant o 19,663 i 18,937, yn cynnwys cychwyn erlyniadau ar gyfer 14,694 o droseddau o gamfanteisio ar blant trwy luniau; ond cynnydd mewn erlyniadau am feddiant o ddelwedd waharddedig o blentyn o 179 i 394;
- Roedd lleihad bychan mewn troseddau anlladrwydd a erlynwyd o 5,801 i 5,508;
- Ar y cyfan, roedd lleihad o ychydig dan 4% o ddelweddau cam-drin plant a 5% o droseddau anlladrwydd yn cyrraedd gwrandawriad cyntaf, o gymharu â lleihad o 10% yn yr holl erlyniadau CPS;
- Cyhoeddwyd hyfforddiant ar seiber stelcio yn Nhachwedd 2012 i ddelio â'r cynnydd yn yr achosion hyn;
- Mae astudiaethau achos yn arddangos erlyniadau o gamfanteisio rhywiol ar blant trwy luniau a seiber droseddau.

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Troseddau yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) hwn gan y CPS y chweched rhifyn i'w gyhoeddi gan y CPS.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n trafod amrediad o feysydd VAWG:

- trais domestig
- treisio a throseddau rhywiol
- masnachu mewn pobl, â ffocws ar fasnachu i ddibenion camfanteisio rhywiol
- puteindra,
- priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod
- cam-drin plant
- pornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data a sylwebaeth mewn adrannau ar wahân ar bob un o'r meysydd VAWG, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ac arfer dda. Mae'r prif faterion a gafodd eu dynodi yn 2012-13 wedi'u hamlygu ym mhob adran ac yn gallu newid yn ôl meysydd. Mae'r CPS yn casglu data¹⁹ i gynorthwyo mewn rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cyfateb i ystadegau swyddogol fel y diffiniwyd yn y Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007²⁰.

Mae proffiliau cydraddoldeb ddiffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn derbyn sylw ac adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad hwn. Adroddir data ar ddiodefwyr ble mae ar gael ac mae'n dal dan ddatblygiad pellach.

Cynlluniau trawslywodraeth

Ym Mawrth 2012 bu i'r llywodraeth flaenoriaethu gwaith ar VAWG drwy gyhoeddi cynllun gweithredu VAWG trawslywodraeth, gan gynnwys cynlluniau'r CPS ar gyfer 2012-13. Goruchwyli'r gweithrediad y gweithredoedd hyn gan y Grŵp Rhyngweinigol VAWG. Roedd cynlluniau ar gyfer 2012-13 yn cynnwys sicrwydd VAWG, hyfforddiant, datblygiad gwaith ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a delio â diogelwch diodefwyr. Mae'r holl fanylion wedi eu cynnwys yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Ymgysylltu â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Mae'r CPS wedi amlygu'r angen i asiantaethau cyfiawnder troseddol weithio'n agos gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu er mwyn cyflawni system gyfiawnder troseddol effeithiol a chynnwys meysydd blaenoriaeth allweddol megis VAWG. Cynhyrchwyd papur

¹⁹ Casglwyd data ar droseddau VAWG o System Rheoli Achosion (CMS) y CPS a System Gwybodaeth Rheoli (MIS) cysylltiedig sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn amodol i wallau posibl gyda chofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro ac yn amodol i newid wrth ragor o wybodaeth gan ei gofnodi gan y CPS

²⁰ Cynhelir yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddau a phlisma gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ystadegau swyddogol yn ymwneud â dedfrydu, achosion llysoedd troseddol, dod â throseddwyr i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth wedi eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

cyfarwyddyd lefel uchel ar VAWG i gydweithwyr CPS lleol i'w cefnogi yn eu rhyngweithio gyda'u Comisiynydd Lleol, gan ddarparu gwybodaeth bellach am berfformiad y CPS ar VAWG; pwysigrwydd sefydliadau arbenigol VAWG a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol; mynychder VAWG a throseddwr benywaidd.

Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Cyflwynwyd ymagwedd prif ffrwd i faterion VAWG, gyda mwy o berchnogaeth Ardal ac atebolrwydd, yn filyn gweithrediad strategaeth VAWG 2008-11 y CPS. Cyhoeddwyd adroddiad arall, [Violence against Women and Girls Strategy 2008-11 – an assessment of success](#), yng Ngorffennaf 2012 a adolygodd effaith y strategaeth tair blynedd. Yn unol â'n hymagwedd prif ffrwd newydd, parhaodd gwaith VAWG i fod yn flaenoriaeth yng nghynlluniau busnes Ardaloedd CPS.

Cydlynwyr VAWG yn ennill gwobr:

Cydnabuwyd gwaith caled ein Cydlynwyr VAWG a'u cyfraniad i wella'n perfformiad parthed erlyniadau VAWG gyda Gwobr Amrywiaeth a Chydraddoldeb y Gwasanaeth Sifil yn 2012. Mae'r Cydlynwyr yn cwrdd bob dwy flynedd fel rhwydwaith i ddelio â materion allweddol gyda'i gilydd a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf ledled y Gwasanaeth.

Cefnogaeth rhanddeiliaid:

Ar lefel genedlaethol, parhaodd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) VAWG, yn cynnwys grwpiau arbenigwyr VAWG allweddol, i gynghori tîm VAWG y CPS fel is-grŵp o'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ehangach. Parhaodd y Gyfarwyddiaeth Atebolrwydd a Chynhwysiant Cyhoeddus (PAID)²¹ i ddal cyfrifoldeb cyffredinol am yr agenda VAWG yn y CPS ac mae Cyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi'r CPS yn cefnogi'r agenda VAWG trwy ddarparu arweiniad polisi amlwg yn cynnwys trais domestig, treisio, priodas dan orfod, FGM, stelcio, cam-drin plant yn rhywiol, trais seiliedig ar urddas, masnachu mewn pobl, puteindra, esgeuluso plant a phornograffi.

Cysylltiadau ar draws materion VAWG

Mae'n ffocws yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi ei hogi i ddeall gwendid ac aflonyddu ar ddiodefwyr VAWG, ac yn 2012-13 rydym wedi cyhoeddi'n bendant yr angen i symud ein ffocws wrth adolygu'r achosion hyn ar hygredd y cyhuddiad, yn hytrach na'r diodefwyr.

Mae'r ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y gwahanol fathau o droseddau VAWG yn parhau i wella. Yn 2012-13, dechreuodd y ffocws ar gam-drin perthnasau ardegau, adroddiad Savile, delweddau anwedus o blant, achosion cam-drin plant yn rhywiol, materion cam-drin plant amlwg eraill a masnachu nodi newidiadau sy'n angenrheidiol ar draws yr heddlu a'r CPS. Datblygom ein gwaith ar stelcio hefyd, yn cynnwys seiber stelcio. Mae erlynyddion yn symud gyda'r amserau ac yn cydnabod pwysigrwydd delio â throseddau seiber, ble mae troseddau VAWG yn cynnwys camdriniaeth o fenywod a merched trwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a'r rhyngwyd.

Ailffocysu ar arferion gweithredu VAWG:

Yn 2013, lluniodd y Gwasanaeth gynigion i safoni a rhesymoli arferion gweithredu cenedlaethol. Ar gyfer VAWG roedd hyn yn golygu delio â gweithdrefnau cyhuddo ar draws VAWG; gan sicrhau bod trais domestig yn rhan ganolog o'r ymarfer gweithredu safonol ar gyfer llysoedd ynadon a chyflwyno Unedau Troseddau Rhywiol Difrifol ar draws yr holl Ardaloedd yn 2013-14 – darperir manylion yn yr adrannau trais domestig a threisio o'r adroddiad.

²¹ Yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDU) gynt

Perfformiad VAWG


Yn 2012-13, parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro'u perfformiad yn defnyddio mesur dilysu VAWG oedd yn asesu deilliannau aflwyddiannus ar gyfer trais domestig, troseddau rhywiol a threisio, yn ogystal â'r nifer o erlyniadau.

Yn dilyn cyflwyniad system Sicrwydd VAWG ansoddol penodol yn Ionawr 2011, darparodd Ardaloedd sicrwydd o'u perfformiad VAWG cyffredinol, yn cynnwys asesiad manwl o drais domestig, treisio ac erlyniadau troseddau rhywiol, ar sail chwe-misol i'r DPP. Mae Ardaloedd yn cael eu hasesu yn ôl eu tuedd mewn perfformiad, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ac wedi eu graddio yn ôl eu perfformiad VAWG. Mae Ardaloedd yn derbyn adborth ar eu hadroddiadau sicrwydd gan y tîm VAWG a'r DPP ac mae'n ofynnol iddynt lunio tri phwynt gweithredu yn dilyn pob asesiad chwemisol. Mae'r broses sicrwydd hefyd yn cynnwys gofyniad i gynnal asesiad manylach o tua 25% o'r achosion treisio. Adroddir ar Fonitro Safon Ansawdd Craidd (CQSM) treisio a sicrwydd achosion treisio yn adran treisio'r adroddiad hwn.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif (86%) o droseddau sydd wedi eu grwpio dan VAWG i ddibenion rheoli perfformiad yn drais domestig gyda threisio ar 4.5% a throseddau rhywiol ac eithrio treisio, ar 9.5%.

Yn 2012-13, erlynwyd 82,165 o ddiffynyddion am droseddau VAWG – mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 10% yn y nifer o achosion VAWG a erlynwyd²², o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, dylid edrych ar y gostyngiad hwn yn erbyn y lleihad mewn nifer ar draws yr holl achosion CPS a erlynwyd o 10%. Cafodd y dirywiad yn y llwyth achosion ei wrydroi yn y chwarter terfynol, fel yng Ngraff 1.

Graff 1: Llwyth achosion VAWG fel % o'r cyfanswm llwyth achosion yn 2012-13.



Linear - Llinol

²² Yn cwmpasu trais domestig, treisio a throseddau rhywiol, ac eithrio treisio.


Llwyth achosion VAWG chwarterol fel % o'r cyfanswm

	Ch1 11-12	Ch2 11-12	Ch3 11-12	Ch4 11-12	Ch1 12-13	Ch2 12-13	Ch3 12-13	Ch4 12-13
CPS Cenedlaethol	10.1%	10.2%	10.3%	10.3%	10.1%	9.9%	10.3%	10.9%

Cynyddodd y gyfran o erlyniadau llwyddiannus i 74%, gan gyflawni'r cyfraddau euogfarn VAWG uchaf erioed. Mae Graff 2 yn arddangos y patrwm cynyddol dros y chwe blynedd ddiwethaf.

Roedd 90% o'r deilliannau llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog. Mae mwy o bledion euog yn golygu y gellir dod ag achosion i'r llys yn gyflymach ac ar gost sylweddol is, gan eu bod yn galw am lai o waith paratoi. Mae hyn yn fanteisiol i'r dioddefydd gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

Graff 2: Cyfraddau euogfarn ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched o 2007-08 i 2012-13.



VAW Convictions – Euogfarnau VAW
 Linear (VAW Convictions) – Llinol (Euogfarnau VAW)

Perfformiad ardal

Mae'r tabl ar dudalen 63 yn darparu data erlyniadau VAWG yn ôl Ardal. Yn 2012-13, roedd yr Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda o ran cyfraddau euogfarn VAWG fel a ganlyn:

Tabl 1: Holl erlyniadau VAWG yn ôl canlyniad yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol

	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Maint y Gwaith	%	Maint y Gwaith	%	
Cenedlaethol	60,853	74.1%	21,312	25.9%	82,165
Dwyrain Lloegr	4,588	80.1%	1,140	19.9%	5,728
Cymru Wales	4,669	78.1%	1,310	21.9%	5,979
Glannau Mersi a Swydd Gaer	2,806	77.8%	800	22.2%	3,606

Mae Dwyrain Lloegr wedi parhau i fod yr Ardal sy'n perfformio orau, gyda Chymru yn gwella ers y llynedd o 3.3% a Glannau Merswy a Swydd Gaer o 1.4%. Yr Ardaloedd oedd yn erlyn y nifer uchaf o achosion VAWG oedd Gogledd Orllewin Lloegr 11,770 (77.3% yn llwyddiannus, cynnydd o 3ppt); Llundain 10,836 (62.3% yn llwyddiannus, lleihad o 1ppt) a Swydd Efrog a Glannau Humber 7,868 (75.2% yn llwyddiannus, cynnydd o 2ppt). Mae gan Ogledd Orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber ill dau gyfraddau euogfarn sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 74.1%

Materion cydraddoldeb

Rhyw

Roedd y data rhywedd ar gyfer 2012-13 yr un peth ag yn 2011-12. Roedd 94% o ddiffynyddion VAWG yn ddynion. O'r rhai ble cofnodwyd eu rhywedd²³, roedd y gyfran fenywaidd o ddiodefwyr yn 85%.

Ethnigrwydd

Yn 2012-13, dosbarthwyd 76% o ddiffynyddion²⁴ troseddau VAWG fel Gwyn, gan nodi fod 73% yn Wyn Prydeinig (tebyg i'r flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 6% o ddiffynyddion yn Asiaidd, ac ychydig dan 6% yn Ddu, ffigurau tebyg i'r flwyddyn flaenorol²⁵. Ni chofnodwyd ethnigrwydd ychydig dan hanner diodefwyr, felly ni adroddwyd ar y data hwn yn yr adroddiad hwn.

Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (69%) a 18-24 (25%). Roedd yn bryder i nodi bod 28% o ddiffynyddion (23,089) dan 24 oed, gyda 2,748 (ychydig dros 3%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 204 (0.2%) yn 10-13 oed. Er bod adrodd ar oed diodefwyr wedi gwella eto, hyd at 79%, nid yw'n ddigon cadarn o hyd i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

²³ Cofnodwyd 82% o rywedd diodefwyr yn 2012-13 – lleihad o 86% yn 2011-12.

²⁴ Mae data ethnigrwydd ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau CJS cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.

²⁵ Ni ddatganodd 2.7% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dan 6% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.

Gwaith rhyngwladol VAWG

Yn Ebrill 2013, bu ymgynghorydd polisi treisio'r CPS yn cymryd rhan yn Swyddfa Cyffuriau a throseddau'r Cenhedloedd Unedig (UNDOC) gan gydweithio gyda Sefydliad Cyfiawnder Gwlad Thai oedd newydd ei sefydlu, yn cynnal cyfarfod tridiau i ddatblygu Llawlyfr i erlynyddion yn delio ag achosion VAWG. Adroddir ar waith rhyngwladol arall ym mhob adran.

Deddfau a chanllawiau newydd i erlynyddion

Deddfau newydd

Taclwyd ystod o faterion VAWG ledled y llywodraeth yn ystod 2012-13. Bwydodd y CPS i mewn i'r ddeddfwriaeth priodas dan orfod (sydd i'w weithredu yn 2014) a deddfwriaeth stelcio (a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2012) yn ogystal â chynghori ar derfynu'r diffiniad o drais domestig. Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd i ymestyn awdurdodaeth diriogaethol ar gyfer masnachu mewn pobl yn Ebrill 2013

Canllawiau newydd

Yn 2012-13, roedd prif ffocws ar ddatblygu canllawiau newydd ar gam-drin plant yn rhywiol gyda'r Coleg Plismona, i sicrhau bod gan yr heddlu ac erlynyddion ymagwedd gyffredin yn seiliedig ar asesu hygredded y cyhuddiad cyffredinol yn hytrach na dim ond y dioddefwr. Buom hefyd yn ymgynghori ar, a chyhoeddi, canllawiau newydd ar erlyn achosion yn ymwneud â chyfathrebu a anfonwyd trwy gyfryngau cymdeithasol.

Cyhoeddwyd canllaw cyfreithiol ar Achosion o Dreisio yn gysylltiedig i lofruddiaeth, a adawyd i sefyll ar ffeil, yng Ngorffennaf 2012 – rhoddir manylion yn adran treisio'r adroddiad hwn. Diweddarwyd canllaw ar fasnachu mewn pobl i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a chyfraith achos wedi ei ddiweddarau.

Materion dioddefwyr

Deliwyd â materion dioddefwyr ym mhob adran o'r adroddiad. Yn ogystal, mae nifer o faterion dioddefwyr cyffredinol o bwysigrwydd cyffredinol yn erlyniad achosion VAWG.

Adolygu'r cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau – cefnogir yr ymagwedd dargedig i ofal dioddefwyr a thystion a amlinellir uchod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), sy'n datblygu strategaeth dioddefwyr a thystion y Llywodraeth. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae'r MoJ ar hyn o bryd yn adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau. Mae'r CPS yn gweithio gyda'r MoJ i adolygu'r Cod, a fydd yn darparu eglurder i ddiodesfwr o ran deall eu hawliau.

Egluro ein gwasanaeth a chanllaw – yn dilyn y gwerthusiad llwyddiannus o astudiaeth beilot yn 2012 a gyda chefnogaeth ACPO, mae'r CPS wedi gweithredu cynllun diwygiedig yn genedlaethol i ddiodesfwr a thystion, yn canolbwyntio ar y gefnogaeth mae Unedau Gofal Tystion yn ei roi i'r diodesfwr a thystion hynny sydd â'r angen mwyaf, yn cynnwys diodesfwr trais domestig a thrais rhywiol. Bydd aelodau Tîm Effeithlonrwydd ar y cyd y CPS/Heddlu yn gwerthuso gweithrediad ac yn monitro cydymffurfiad gyda'r gofynion isafswm o Fehefin 2013.

Yng Ngorffennaf 2012, cyhoeddodd y CPS ddogfen fframwaith yn amlinellu'r elfennau allweddol o ofal tystion, gan ddarparu dolenni i'r canllaw cyfreithiol manylach ble fo angen. Mae'r fframwaith yn bennaf er mwyn cynorthwyo ymarferwyr rheng flaen i ddeall a chyflawni eu hymroddiadau gofal tystion CPS, gan sicrhau bod y CPS yn cydymffurfio gyda'n Safonau Ansawdd Craidd.

Llawlyfr WCU

Mae'r CPS, ar y cyd ag ACPO, yn datblygu llawlyfr WCU sydd wedi ei gynllunio i gynorthwyo WCOau a rheolwyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd gyda dioddefwyr a thystion.

Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu – yn dilyn y dyfarniad yn R v Killik, lansiodd y CPS Hawl Dioddefwyr i Adolygu ym Mehefin 2013. Mae'r cynllun newydd yn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr geisio adolygiad o benderfyniad y CPS i beidio erlyn.

Mae canllaw, sydd wedi ei gytuno i ddibenion gweithredu'r cynllun, yn amodol i ymgynghoriad allanol ffurfiol a fydd yn rhedeg am gyfnod o dri mis o Fehefin 2013.

Cyfathrebu Uniongyrchol gyda Dioddefwyr – mae'r CPS yn bwriadu adolygu ein cyfathrebu ehangach gyda dioddefwyr i redeg astudiaeth beilot yn yr hydref ar sut y gallwn wella'n cyfathrebu gyda dioddefwyr, gan ddarparu gwasanaethau uwch penodol i'r rhai sydd fwyaf angen y gefnogaeth, yn cynnwys dioddefwyr VAWG

Delio ag anghenion dioddefwyr a thystion ifanc – yn Chwefror 2012, cyhoeddodd yr HMCPSP a HMIC eu 'Hadroddiad Archwilio ar y cyd ar Brofiad Dioddefwyr a Thystion Ifanc yn y System Gyfiawnder Droseddol' (adroddiad 2012). Mae'r CPS yn y broses o ddelio â nifer o faterion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Ymchwil mesurau arbennig – Cyflawnodd y CPS brosiect ymchwil i'r defnydd o fesurau arbennig a chyhoeddi'r adroddiad yn Awst 2012. Roedd yr adroddiad yn adrodd ar welliannau oedd yn angenrheidiol i nodi'r gofyniad am fesurau arbennig; darparu rhesymau manwl dros geisiadau; gwella amseroldeb ceisiadau a dulliau mwy sensitif o siarad â dioddefwyr bregus. Mae SPD y CPS yn gweithio ar ddatblygu'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad hwn. Mae camau gweithredu hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol: mae pecyn e-ddysgu'r CPS ar fesurau arbennig wedi ei ddiwygio ac mae nawr yn darparu mwy o wybodaeth a ffocws ar ganolwyr; mae'r CPS wedi cyfrannu i ddatblygiad y wefan Porth Adfocadau, a lanswyd yn Ebrill 2013 ac sydd wedi ei gynllunio i ddarparu canllaw ymarferol, seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr cyfiawnder troseddol ar dystion a diffynyddion bregus.

Canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol

Cyhoeddwyd canllawiau ar erlyn achosion yn ymwneud â chyfathrebu a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol ym Mehefin 2013, yn dilyn ymgynghoriad a chwe chyfarfod fordron gyda rhanddeiliaid. Mae'r canllawiau yn gwahaniaethu'n glir rhwng y cyfathrebiadau hynny y dylid eu herlyn yn gadarn, megis y rhai sy'n cyfateb i fygythiad credadwy o drais, ac ymgyrch dargedig o aflonyddu yn erbyn unigolyn neu sy'n groes i orchmynion llys, a'r cyfathrebiadau hynny y gellid eu hystyried i fod yn sarhaus iawn, ble dylid defnyddio'r trothwy uchel. Mae erlyniad yn llai tebygol o fod er lles y cyhoedd os, er enghraifft, yw'r cyfathrebiad yn cael ei ddileu, blocio, nad yw wedi ei fwriadu ar gyfer cynulleidfa ehangach neu nad yw'n amlwg tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddehongli i fod yn oddefol neu dderbyniol

mewn cymdeithas amrywiol sy'n cynnal a pharchu rhyddid mynegiant. Mae angen darllen y canllawiau cyfryngau cymdeithasol yn ar y cyd â'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron sy'n nodi ffactorau lles y cyhoedd yn cynnwys a oedd y drosedd wedi ei hysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn y dioddefwr yn cynnwys gwahaniaethu ar sail rhyw.

Achos a gafodd sylw amlwg

Mae'r pêl-droediwr Ched Evans wedi ei garcharu am bum mlynedd wedi ei gael yn euog yn Llys y Goron Caernarfon o dreisio menyw mewn gwesty ger y Rhyl.

Wedi ei euogfarn, rhoddodd nifer o bobl sylwadau ar Facebook a Twitter yn mynegi anfodlonrwydd ynglŷn â'r canlyniad. Roedd nifer ohonynt yn enwi'r dioddefwr ac yn mynd ymlaen i gyhoeddi sylwadau difenwol yn awgrymu bod y dioddefwr wedi gwneud cyhuddiad ar gam o dreisio. Yr ymagwedd i'r achos oedd erlyn y rhai oedd wedi enwi'r dioddefwr dan adran 5 y Ddeddf Troseddau Rhywiol (Addasiad) 1992 ac i ddefnyddio'r sylwadau tramgwyddus a gyhoeddwyd fel nodweddion oedd yn gwaethygu'r drosedd. Cafwyd pob un o'r

Gwaith Ardal VAWG

Yn 2012-13, arweiniodd Cydlynwyr VAWG Ardal gyflawniad erlyniadau VAWG yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth VAWG (EDCEMau) i redeg Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPau). Mae gan yr holl Ardaloedd baneli yn delio â materion VAWG – yn bennaf yn delio â thrais domestig ac erlyniadau treisio – ond roedd rhai hefyd yn canolbwyntio ar drais seiliedig ar urddas a materion ethnigrwydd VAWG.

Cynhaliwyd cyfarfod ford gron yn Ionawr 2013 ar gyfer Cydlynwyr VAWG i drafod datblygiad Arferion Gweithredu Safonol Cenedlaethol yn cynnwys datblygiad Unedau RASSO, yn rhan o agenda ailffocysu'r CPS.

Arfer da

Darparodd gwaith gyda grwpiau cymunedol trwy LSIPau ac ymgysylltiad cymunedol ystod o arfer da wedi ei rannu ar draws Ardaloedd. Mae Safon Ansawdd Craidd 12 yn ymwneud ag ymgysylltiad cymunedol ac mae wedi ei fonitro ar draws Ardaloedd yn flynyddol. Ymysg enghreifftiau o arfer da mae:

- Cynhaliodd Gorllewin Canolbarth Lloegr a Wessex fforymau gydag IDVAau/ISVAau i wella eu herlyniadau, cynhaliodd y Gogledd Ddwyrain LSIP i ddelio â materion dioddefwyr;
- Cynhaliwyd detholiad o gynadleddau a sesiynau hyfforddi VAWG yn lleol yn cynnwys cynadleddau yn y Gogledd Orllewin ar faterion FM/HBV; hyfforddiant HBV yn Nwyrain y Canolbarth; hyfforddiant Masnachu mewn Pobl yng Nghymru ac fe wahoddodd y CPSD yr IDVAau i gefnogi eu sesiynau hyfforddi; arweiniodd


cynhadledd y Gogledd Ddwyrain at hyfforddi gwirfoddolwyr gan IDVAau fel cefnogaeth cyfoedion i ddioddefwyr; cynhaliodd y Gogledd Orllewin gynhadledd i rai yn eu harddegau, ar gam-drin.

- Deliodd wyth o Ardaloedd yn benodol â materion FM ac HBV;
- Cynhaliodd pedair o Ardaloedd ddigwyddiadau a chyflawni gwaith ar FGM;
- Roedd y rhan fwyaf o'r Ardaloedd yn cyfeirio eu gwaith tuag at gam-drin plant, yn arbennig parthed camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol;
- Datblygu bwletinau VAWG lleol, fel yng Ngogledd Orllewin a Dwyrain Canolbarth Lloegr;
- Defnyddiodd Tafwys a Chiltern Gyfryngwyr i gefnogi dioddefwyr mewn achosion VAWG.

Trais Domestig

Yn 2012-13, dynododd y patrwm cyffredinol o erlyniadau trais domestig, unwaith eto, fod cyfran uwch o achosion yn terfynu gydag euogfarn, gyda llai o achosion wedi eu hatal a mwy o ddiffynyddion yn pledio'n euog. Mae Graff 3 yn arddangos y tuedd cynyddol dros yr wyth mlynedd diwethaf, gyda chynnydd yn 2012-13.

Graff 3: Cyfraddau euogfarn trais domestig 2005-06 i 2012-13



DV Convictions – Euogfarnau TD
 Linear (DV Convictions) – Llinol (Euogfarnau TD)

Yn 2012-13, cafodd dros 88,110 o achosion eu hanfon ymlaen at y CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniadau cyhuddo.²⁶ Roedd hyn yn lleihad o 7% o achosion wedi eu hanfon ymlaen am gyhuddiad, o 95,117 yn 2011-12.

O'r rhain, cyhuddwyd 64.6% sy'n lleihad bychan yn y gyfran o'r flwyddyn flaenorol (65.6%).

Yn y cyfnod hwn, fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd troseddau yn erbyn y person y troseddau a gyflawnwyd amlaf, yn cynrychioli 68% o droseddau trais domestig. Roedd troseddau difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 13% a 5% pellach yn ôl eu trefn²⁷.


Fel y gwelir yn nhabl 2, gostyngodd y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd dros y flwyddyn ddiwethaf o 11% i 70,702, fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yn erbyn yr un gostyngiad o 11% yn y nifer o achosion Llys Ynadon a erlynwyd gan y CPS (gweler graff 4).

²⁶ Sylwer bod y niferoedd cyhuddo sy'n delio â'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* at y CPS yn ystod 2012-13 am benderfyniadau cyhuddo ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol mewn nifer gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2012-13.

²⁷ Gweler y Rhestr Termau am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau.

Mae llwyth achosion wedi ei gynnal ar draws 2011-12 a 2012-13 ar 8.9%, gan godi i 9.5% erbyn Ch4 2012-13 – gweler graff 5. Mae cyhuddiad i NFA wedi gostwng ychydig – roedd yn 2.4:1 yn 2012-13 o gymharu â 2.5:1 yn 2011-12. Mae gwaith ar ddigwydd gyda'r Swyddfa Gartref ac Ardaloedd i ddelio a hyn.


Graff 4: Niferoedd trais domestig 2005-6 i 2012-13



Ar y raddfa chwith mae'r nifer o erlyniadau trais domestig;
 Ar y raddfa dde mae nifer yr erlyniadau Llys Ynadon.

DV Convictions – Euogfarnau TD
 Total DV Prosecutions – Cyfanswm Erlyniadau TD
 All Magistrates Prosecutions – Holl Erlyniadau Ynadon
 Linear - Llinol

Graff 5: Llwyth achosion trais domestig 2012-13



Linear - Llinol

Llwyth Achosion TD chwarterol fel % o'r cyfanswm

	Ch1 1112	Ch2 1112	Ch3 1112	Ch4 1112	Ch1 1213	Ch2 1213	Ch3 1213	Ch4 1213
CPS Cenedlaethol	8.8%	8.9%	8.9%	8.9%	8.7%	8.6%	8.8%	9.5%

Cynyddodd yr erlyniad o ddeilliannau llwyddiannus i 74.3%, cynnydd o 1.0 pwynt canrannol (ppt) o'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y nifer o bledion euog o 1.0ppt dros y flwyddyn i 68.5%, roedd euogfarn wedi treial yn 5.7%²⁸.

Roedd pledion euog yn atebol am 92% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus, gan greu arbedion gweithredol ac effeithlonrwydd yn ogystal â buddiannau i ddiodefwr nad ydynt yn gorfod mynychu'r llys i roi tystiolaeth. Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isaf erioed, yn 20% o'r holl achosion trais domestig a erlynwyd.

Tabl 2: Erlyniadau trais domestig a gwblhawyd yn ôl canlyniad

	2007 - 08		2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012-13	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	43,977	68.9%	48,465	72.2%	53,347	72.0%	59,101	71.9%	58,138	73.3%	52,549	74.3%
Aflwyddiannus	19,842	31.1%	18,629	27.8%	20,766	28.0%	23,086	28.1%	21,130	26.7%	18,153	25.7%
Cyfanswm	63,819		67,094		74,113		82,187		79,268		70,702	

²⁸ Mae euogfarn wedi treial yn ddim ond 5.7% o'r 74.3% o ddeilliannau llwyddiannus, gan fod y lefel o bledion euog mor uchel ar 68.5%.

Perfformiad Ardaloedd

Mae'r tabl ar dudalen 64 yn darparu data erlyniadau trais domestig yn ôl Ardal. Yn 2012-13, mae'r Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda o ran cyfraddau euogfarn trais domestig wedi eu cyflwyno yn Nhabl 3:

Tabl 3: Erlyniadau trais domestig yn ôl canlyniad yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol

	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	52,549	74.3%	18,153	25.7%	70,702
Dwyrain Lloegr	4,102	80.7%	981	19.3%	5,083
Cymru Wales	4,179	79.0%	1,111	21.0%	5,290
Gogledd Orllewin Lloegr	8,127	77.9%	2,312	22.1%	10,439

Parhaodd Dwyrain Lloegr fel yr Ardal oedd yn perfformio uchaf; gyda Chymru yn gwella o 3.3% o'r llynedd a Gogledd Orllewin Lloegr o 3.7%. O fewn Dwyrain Lloegr, mae gan Suffolk y gyfradd erlyniad uchaf o 83.7%. Ar y cyfan, gwelodd wyth o Ardaloedd eu deilliannau erlyn yn y flwyddyn ddiwethaf.

Yr Ardaloedd oedd yn erlyn y nifer uchaf o achosion TD oedd y Gogledd Orllewin gyda 10,439 (77.9% yn llwyddiannus, fel uchod); Llundain gyda 8,787 (61.7% yn llwyddiannus – lleihad o 1ppt o 2011-12) a Swydd Efrog a Glannau Humber gyda 6,875 (75.2% yn llwyddiannus, cynnydd o 2ppt o'r llynedd).

Arfer da Ardal

- Yn CPS Gogledd Orllewin Lloegr, canolbwyntiodd uwch reolwyr ar nodi achosion yn gywir, deall y rhesymau dros athreuliad ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid CJS yn 2012-13. Mae ganddynt becyn TD penodol ar gyfer adfocadau sydd wedi eu rhannu yn genedlaethol ac yn sicrhau gwell dilyniant o arbenigwyr penodol mewn Llysoedd TD Arbenigol. Deliodd gweithdy gyda'r heddlu â datrysiadau lleol. Canfu'r Ardal gydymffurfiaid cynyddol gyda'r rhestr wirio TD ACPO/CPS fel elfen ddylanwadol o wella perfformiad.
- Mae CPS Cymru wedi gwella eu perfformiad trwy uwch arweinyddiaeth dda, monitro cyfng o berfformiad gydag atebolrwydd cyfreithwyr, defnyddio cyfreithwyr TD arbenigol ar gyfer treialon a'r holl SDVCau, blaenoriaeth ar restrau llysoedd a gwaith allweddol gyda phartneriaid, WCUau ac IDVAau. Mae TD yn flaenoriaeth benodol i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan.

Materion cydraddoldeb

Rhyw

Yn 2012-13, fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 93%.

Gostyngodd cofnodi rhyw dioddefwyr ychydig i 82% yn 2012-13, o 87% yn y flwyddyn flaenorol. O'r rhai ble cofnodwyd eu rhywedd, roedd y gyfran fenywaidd o ddiodefwyr yn dan yn 84% ers 2010-11.

Ethnigrwydd

Yn 2012-13, dynodwyd 79% o ddiffynyddion trais domestig fel Gwyn (tebyg i'r flwyddyn flaenorol), gyda 75% yn cael eu nodi i fod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 5% o ddiffynyddion yn Ddu, a 5% yn Asiaidd, tebyg i'r ddwy flynedd flaenorol²⁹. Er bod cofnodi diodefwyr ethnigrwydd wedi gwella, mae ychydig dan hanner yn dal heb ei gofnodi ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Cefnogi Menywod Du, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig a Ffoaduriaid

Mae CPS Glannau Merswy - Swydd Gaer wedi cefnogi sefydlu elusen leol newydd yn cefnogi menywod Du, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig a Ffoaduriaid sy'n diodefwyr trais domestig. Mae'r elusen, Savera Liverpool, yn canolbwyntio ar gymorth i diodefwyr trais domestig, priodas dan orfod, trais seiliedig ar urddas a llurgunio organau rhywiol menywod. Enillodd sylfaenydd Savera wobwr Menyw y Flwyddyn Glannau Merswy yn dilyn ei henwebiad gan y CPS.

Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (69%) a 18-24 (25%). Roedd yn bryder nodi bod ychydig dan 30% o ddiffynyddion (20,228) dan 24, gyda 2,123 (3%) o ddiffynyddion rhwng 14-17 oed a 118 (0.2%) rhwng 10-13 oed. Mae cofnodi oed diodefwyr wedi gwella hyd at 79%, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Cam-drin y rhai yn eu harddegau

Awgrymodd ymchwil a gyflawnwyd y llynedd gan y CPS nifer isel o erlyniadau mewn perthnasau rhai yn eu harddegau ac, er yn llwyddiannus gan bennaf, ychydig iawn o gyfeiriad oedd at gefnogaeth i diodefwyr³⁰. O ganlyniad, yng Ngorffennaf 2012 asesodd Panel Craffu Cenedlaethol (NSP) achosion o gam-drin mewn perthynas yn yr arddegau. Yn ystod y cyfarfod, a gadeiriwyd gan y DPP, ystyriodd yr NSP chwe achos o gyfanswm o 26 o erlyniadau ar gyfer 2011-12 oedd wedi eu llumanu fel trais domestig a cham-drin plant ac oedd yn ymwneud â diffynnydd ifanc a diodefwyr ifanc.

²⁹ Ni ddatganodd ychydig dros 2% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dros 5% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.

³⁰ Y rheswm dros ganolbwyntio ar y thema hon oedd bod y casgliadau o Arolwg Troseddau Prydain yn 2009-10 yn dynodi mai'r ystod oedran 16-19 oedd dan y risg uchaf o brofi cam-drin domestig.

Nododd yr NSP nifer o faterion i wella erlyniadau ac fe sefydlwyd gweithgor ar draws y CPS i:

- **Gefnogi erlynyddion i wella eu dealltwriaeth o gam-drin mewn perthynas yn yr arddegau:** Bydd hyn yn cynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi i herio mythau ac i herio ystrydebau; hyrwyddo'r mathau o orchmynion ataliol neu amodau mechnïaeth allai fod fwyaf perthnasol i bobl ifanc, er enghraifft, diffyg cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol; a gwella cyfathrebu priodol i oed.
- **Datblygu gwell gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau i wella perfformiad gweithredol:** Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag adrannau llywodraeth eraill i archwilio'r lefel o gefnogaeth sydd ar gael i ddiodefwyr mewn llysoedd ieuenctid; annog Paneli Cynhwysiant Craffu Lleol i ystyried achosion yn ymwneud â cham-drin ym mherthnasau rhai yn eu harddegau ac ymgysylltu gydag asiantaethau priodol ar lefel leol; hyrwyddo adeiladu achosion gwell gyda'r heddlu.
- **Gwella trosolwg ac ymgysylltu strategol:** Mae hyn yn ymwneud â chodi materion yn y grŵp cyflawni VAWG trawslywodraethol a gydlynir gan y Swyddfa Gartref, gan fwydo i mewn i'r Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

Taclo trais domestig ymysg pobl ifanc

- Cynhaliwyd cynhadledd gan CPS Gogledd Orllewin Lloegr i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o drais domestig. Mynychodd dros 40 o bobl ifanc y digwyddiad, oedd wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer pobl 13 i 25 oed.
Roedd yr adborth gan nifer o'r plant oedd yn bresennol yn awgrymu bod y CPS ac asiantaethau eraill yn mynd i ysgolion i wneud digwyddiadau tebyg mewn gwasanaethau ysgol er mwyn i bobl ifanc gael gwell dealltwriaeth o ymddygiad derbyniol ac annerbyniol.
- Bu CPS Dwyrain Lloegr yn monitro eu hachosion cam-drin domestig am saith mis ac fe gomisiynydd y bwrdd cyfiawnder lleol waith i ymchwilio i gynhwysiant achosion ieuenctid yn eu model SDVC.

Perthnasau

Mae cofnodi'r berthynas rhwng y cyflawnydd a'r diodefwyr yn ddigon cadarn i'w asesu eto, fodd bynnag, mae cofnodi wedi gwella o 17% yn 2010-11 i 49% yn 2012-13 a bydd Ardaloedd yn cael eu hannog i wella ymhellach i helpu nodi perthnasau un rhyw a gwahaniaethu rhwng aelodau teulu a phartneriaid agos.

Perthnasau un rhyw

Cynhaliodd Cumbria gynhadledd oedd yn delio â pherthnasau un rhyw. Mynychodd adfocadau trais domestig (TD), cynrychiolwyr yr heddlu, cymdeithasau tai, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Rhannodd OutReach Cumbria, yr unig sefydliad Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn Cumbria, gydag adfocadau'r gwahaniaethu y mae dioddefwyr a gynrychiolir ganddynt yn wynebu a sut i ddarparu gwell cefnogaeth. Wedi'r gynhadledd,

Materion trawslywodraethol: Diffiniad diwygiedig

Gweithredwyd y diffiniad trawslywodraethol newydd o fis Mawrth 2013. Mae'n cynnwys dioddefwyr trais domestig rhwng 16 a 17 oed, i gynyddu ymwybyddiaeth y gall pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn hefyd brofi cam-drin o'r math yma. Yn ogystal, mae'n cynnwys a diffinio ymddygiad rheolaethol ac ymddygiad gorfodol.³¹

Mae'r newid diffiniad hefyd yn cynnwys yr hyn a elwir yn 'drais seiliedig ar urddas', FGM a phriodas dan orfod; nid yw'r diffiniad yn cyfyngu dioddefwyr i ryw na grŵp ethnig penodol.

Mae'r CPS eisoes wedi cynnwys achosion Dan 18 Oed, fel cyflawnwyr a dioddefwyr, ac yn cydnabod y patrwm o gymhelliant, grym a rheolaeth yn ein hyfforddiant trais domestig. Gobeithir y bydd y diffiniad newydd yn dod â gwell ymwybyddiaeth i Adrannau a gwasanaethau eraill i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi cymaint â phosibl wrth brofi'r gwahanol ffurfiau o drais neu gam-drin domestig.

Llysoedd Arbenigol TD

Yn ystod 2012-13, parhaodd y CPS i fod yn rhan o Grŵp Llywio Cenedlaethol trawslywodraeth gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn goruchwyllo'r Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVCau). Mewn ymateb i gau arfaethedig o rai llysoedd ynadon o Ebrill 2011, datblygodd y Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol ganllaw i SDVCau i sicrhau trosglwyddiad gwasanaethau arbenigol i drefniadau llys newydd a goruchwylodd y cam nesaf o drosglwyddo yn ystod 2012-13 – gan ymweld â dau SDVC i gymeradwyo eu system newydd.

³¹ Mae ymddygiad rheolaethol yn: ddetholiad o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, ymelwa ar eu hadnoddau a chynwyseddau er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a dianc ac yn rheoleiddio eu hymddygiad dydd i ddydd. Ymddygiad gorfodol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilydd ac aflonyddu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr.

Hyfforddiant

Diweddarwyd yr hyfforddiant e-ddysgu erbyn Mawrth 2013 i sicrhau y cynhwyswyd yr wybodaeth fwyaf cyfredol, gan gynnwys y diffiniad diwygiedig, stelcio, cam-drin mewn perthynas ardddegau a'r rhestr wirio cyhuddo/tystiolaeth newydd. Cynhaliodd y CPSD sesiynau hyfforddi gydag IDVAau ar gyfer eu herlynyddion.

Mae'r CPS yn parhau i gryfhau ei ymroddiad i drais domestig trwy'n dialog gyda CAADA. Yn Nhachwedd 2012, cyflawnodd y CPS hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol ym Mryste, Manceinion a Llundain.

Darparwyd yr hyfforddiant gan SPD gyda mewnbwn gan ddau gydlynnydd VAWG. Roedd y cwrs yn trafod y broses gyfiawnder droseddol, yn cynnwys ymateb yr heddlu i gam-drin domestig a thrais rhywiol, a rôl y CPS a gwasanaethau cyfiawnder troseddol eraill.

Cyhuddo

Lansiwyd [Rhestr wirio cyhuddo Trais Domestig ar y cyd y CPS a'r Heddlu](#) newydd yn Nhachwedd 2012. Mae'n seiliedig ar arfer gorau o ledled Cymru a Lloegr, gyda chynngor gan rwydwaith eiriolwyr cam-drin domestig yr heddlu, cydweithwyr y CPS ac a gymeradwywyd trwy Fframwaith Gomisiynu ACPO.

Mae'r rhestr wirio yn cael ei defnyddio gan yr Heddlu a'r CPS i nodi, coladu a gwirio'r dystiolaeth ar gyfer achosion yn ymwneud â cham-drin domestig, gan mai'r Heddlu oedd yn ymchwilio iddynt ac yna'r CPS yn gwneud penderfyniadau cyhuddo ac erlyn dilynol. Mae'n delio â'r materion allweddol ar gyfer casglu tystiolaeth fanylach a chyhuddo ac yn adeiladu ar Femorandwm blaenorol y CPS ar gyfer cyhuddo mewn achosion TD. Mae hyn yn fecanwaith hawdd i bawb dan sylw a bydd yn caniatáu i ACPO a'r CPS gynnal trosolwg da ar gasglu tystiolaeth a darpariaeth i gefnogi rheolaeth achos a gwneud penderfyniadau effeithiol. Bydd hefyd yn cynorthwyo erlynyddion i adeiladu achosion yn defnyddio tystiolaeth wahanol i dystiolaeth y dioddefwr.

Apeliadau Mechnïaeth

Yn Rhagfyr 2012 cafwyd newidiadau pwysig i ddedfrydu ac i fechnïaeth ar gyfer oedolion ac ieuenctid, yn cynnwys hawl yr erlynydd i apelio parthed penderfyniadau ar fechnïaeth gan farnwyr. Cafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys bron o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgyrchu dan arweiniad John a Penny Clough, rhieni Jane Clough a gafodd ei llofruddio gan Jonathan Vass yn Blackpool yn 2010. Ar adeg y llofruddiaeth, roedd Vass ar fechnïaeth ar gyhuddiad o dreisio ac ymosod ar Jane wedi derbyn mechnïaeth amodol gan Farnwr mewn siambrau saith mis yn gynharach.

Defnyddiodd CPS Gogledd Orllewin Lloegr y newidiadau hyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan Farnwr mewn achos gyda chyd-destun trais domestig. Roedd diffynnydd, a oedd ar fechnïaeth am ymosod ar ei bartner, wedi torri amodau ei fechnïaeth llys ynadon ddwywaith cyn cael ei gadw yn y ddalfa. Gwnaeth gais llwyddiannus i farnwr mewn siambrau am fechnïaeth, ond cyflwynodd y CPS apêl ar unwaith dan y darpariaethau newydd, a gafodd ei gynnal.

Apeliwyd yn erbyn ail achos wedi i farnwr ganiatáu mechnïaeth i ddiffynnydd wedi ei gyhuddo o bedwar achos o dreisio a sawl ymosodiad cyffredinol. Cytunodd Barnwr o'r Uchel Lys i apêl y CPS.

Tynnu'n ôl

Un o'r prif broblemau mewn achosion trais domestig yw'r dioddefwr yn tynnu'r cyhuddiad yn ôl oherwydd y berthynas agos a chlos yn aml rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr. Methodd 6,741 o achosion trais domestig yn 2012-13 oherwydd i'r dioddefydd naill ai fetu mynychu'r llys neu dynnu eu tystiolaeth yn ôl; roedd hynny yn cyfateb i tua 37% o'r holl achosion trais domestig aflwyddiannus o gymharu â thua 11% o'r holl erlyniadau eraill.

O'r *holl* achosion a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau gyda'r dioddefydd³² wedi gostwng i 13.2% o 13.5% y llynedd, wedi tair blynedd o barhau'n sefydlog ar 14% cyn hynny. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau tynnu'n ôl ac mae gwaith i wella hyn yn cael ei amlinellu isod.

Cyflawnwyd **ymchwil** mewn un Ardal i asesu'r gweithredoedd mwyaf effeithiol yn dilyn diffyn ymgysylltu gyda neu dynnu yn ôl gan ddioddefwyr - gan anelu i ddarparu gwybodaeth bellach ar wrthodiad dioddefwyr i ymgysylltu â'r broses erlyn; mesurau i gynnwys dioddefwyr yn y broses hon a delio â'u diogelwch; asesu dulliau effeithiol o sicrhau euogfarn lwyddiannus; a pha gamau a ddylid eu cymryd i wella deilliannau euogfarn a diogelwch dioddefwyr.

Ar gyfer pob achos, dros gyfnod o bedwar mis, cofnododd yr Ardal resymau dros dynnu yn ôl, cefnogaeth i ddioddefwyr, gweithredoedd yn cynnwys asesiad o ddiogelwch dioddefwyr,

³² Achosion aflwyddiannus oherwydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl; dim mynychu neu ble nad yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.

p'un a ddefnyddiwyd tystiolaeth arall ac/neu dystion a gafodd eu gwysio a'u canlyniadau. Yn ogystal, darparodd IDVAau eu barnau trwy holiaduron a grŵp ffocws.

Cwblhawyd yr ymchwil yn 2013 a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn haf 2013.

Euogfarn heb ddiodefnydd neu gyflawnydd

Deliodd achos yng Nglannau Merswy â sefyllfa anarferol. Ar ddiwrnod y treial, ni wnaeth y diodefnydd na'r cyflawnydd ymddangos yn y llys. Roedd y diodefnydd wedi hysbysu'r Swyddog Gofal Tystion o'i hofn a bygythiadau pellach. Gwnaeth yr erlynydd gais llwyddiannus i frw ymlaen yn eu habsenoldeb yn defnyddio'r dyfarniad cyfreithiol mwyaf cyfredol yn llawn. Yn dilyn hynny, darparodd y swyddog yr heddlu a fynychodd leoliad y cam-drin dystiolaeth o'r anafiadau a thrallod a chyfaddefiad gan y diffynnydd. Cafwyd y diffynnydd yn euog. Trechwyd cymhlethdodau'r achos hwn diolch i ymchwiliad da gan yr heddlu ac ymagwedd ragweithiol gan yr erlynydd.

Gwysion tystion

Yn 2011-12, nodwyd bod nifer o lysoedd wedi dechrau cyhoeddi gwysion tystion mewn achosion trais domestig yn y gwrandawriad cyntaf, waeth pa wybodaeth allai fod ar gael am ddiogelwch a barnau'r diodefwr, yn rhan o'r fenter Atal Oedi Cyfiawnder. Felly fe ddefnyddiwyd canllaw i egluro sut i ddelio â gwysion tystion i dystion fynychu, pan fyddai sefyllfa o'r fath yn codi.

Mae'r canllaw yn egluro bod gwneud cais am wŷs i dyst yn fesur pan fetho popeth arall mai dim ond dan yr amgylchiadau canlynol y dylid ei ystyried:

- mae yna awgrym o anfonlonrwydd y diodefwr i fynychu;
- gwnaethpwyd ymholiadau i'r heddlu o ran diogelwch y diodefwr ac unrhyw blant, gan bennu a oedd y diodefwr yn ymwybodol o gefnogaeth arbenigol oedd ar gael ac asesiadau risg a ystyriwyd, yn arbennig mewn achosion risg uwch.
- defnyddir rhestr wirio gwŷs tystion y CPS i asesu a ystyrir bod cael gwŷs yn ddymunol.

Fodd bynnag, ni ddylid cyflwyno gwŷs tyst nes cael cadarnhad na fydd y diodefwr yn mynychu hyd yn oed gyda chefnogaeth neu fesur arbennig; nid yw cais dan adran 116 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn bosibl ac na fydd diogelwch y diodefwr mewn perygl.

Mae'r canllaw hefyd yn dynodi pan fydd y llys yn penderfynu cyhoeddi gwŷs tyst o'i wirfodd, dylai erlynyddion ailadrodd bod ceisio gwŷs tyst yn awtomatig yn groes i'n polisi. Dylid ceisio sicrhau gohiriad i asesu'r achos yn gywir ac ystyried y meini prawf ar gyfer gwŷs tyst. Mewn achosion ble mae'r llys yn gwrthod gohirio, dylai erlynyddion sicrhau nad yw'r wŷs tyst yn cael ei chyflwyno nes y cymerir y camau gofynnol.

Gorchmynion ataliol

Gellir gwneud cais am orchmynion ataliol ar euogfarn neu ryddfarn³³. Gall gorchmynion ataliol ar ryddfarn fod yn amddiffyniad ychwanegol i ddiodefwyr mewn sefyllfaoedd ble gallai'r gamdriniaeth fod tu hwnt i gydbwysedd y tebygolrwydd, ond nid tu hwnt i amheuaeth resymol – y safon brawf sy'n ofynnol ar gyfer euogfarnau troseddol. Nid oedd data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2012 ar orchmynion ataliol ar erlyniad a rhyddfarn ar gael wrth gyhoeddi.

O Ionawr 2013, dechreuodd yr holl Ardaloedd gofnodi gorchmynion ataliol ar ryddfarn i ddarparu rhyw fesur o sut y gall y CPS helpu o ran diogelwch diodefwyr ac i osgoi fod yn rhaid i ddiodefwyr wneud cais am a thalu am orchymyn trwy'r llysoedd sifil.

Cefnogaeth i ddiodefwyr yn y llys

- Mewn un achos, mae'r diodefwr wedi bod yn byw mewn lloches i fenywod i ffwrdd o'r Ardal. Oherwydd difrifoldeb y troseddau, rhodiodd y diodefwr dystiolaeth o bell trwy gyswllt fideo gyda chyfieithydd Bengaleg. Rhoddodd dystiolaeth dros y cyswllt a chafodd y diffynnydd euogfarn a derbyn: 13 wythnos o garchar, wedi ei atal am 12 mis; gorchymyn cosb gymunedol am dros 120 awr, gyda goruchwyliaeth ac iawndal i'w dalu i'r diodefwr.
- Gweithiodd Cydlynnydd Ardal VAWG gyda'r heddlu a phartneriaid eraill i edrych ar sut i wella diffyg presenoldeb diodefwyr yn y treial. Mae rhai mentrau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn cynnwys addasu'r llythyr i'w arwain at ddiodefwyr TD yn awtomatig gan y WCO i'w wneud yn benodol i TD; cynnwys cyswllt y CPS gyda diodefwyr yn ystod y cam pan fydd yr achos yn cael ei baratoi ar gyfer treial i achub y blaen ar unrhyw broblemau gyda'r tyst a darparu gwybodaeth i grwpiau cefnogaeth ar bob cam fel y gallant groesgyfeirio pwy maent yn eu cefnogi ac i helpu gwella presenoldeb yn y llys.
- Gweithiodd sefydliad trais domestig partner arbenigol, yn un o'r llysoedd TD arbenigol, gyda'r CPS a'r heddlu i leihau effaith diffyg presenoldeb oherwydd costau gofal plant a thystion.

³³ Addasodd adran 12 y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 adran 5 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, gan alluogi'r llysoedd i gyhoeddi gorchymyn ataliol ar ryddfarn.

Materion dioddefwyr

Nodwyd nifer o fentrau lleol fel arfer da trwy gydol 2012-13. Cynhaliwyd detholiad o gynadleddau a sesiynau hyfforddi TD yn lleol – er enghraifft, gwahoddwyd IDVAau gan CPSD i gefnogi eu sesiynau hyfforddi; cynhaliodd Gogledd Orllewin Lloegr gynhadledd i rai yn eu harddegau ar gam-drin mewn perthynas. Cyflawnodd Dwyrain Canolbarth Lloegr a Llundain rai mentrau i ddelio â diffyg presenoldeb dioddefwyr.

Arfer da

- Trefnodd Gogledd Ddwyrain Lloegr ddigwyddiad ar y cyd gyda grwpiau menywod a gwirfoddolodd rhai mynychwyr i gael eu hyfforddi gan IDVAau i weithredu fel cefnogaeth cyfoedion ar gyfer dioddefwyr yn mynychu'r llys.


Ymchwil Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol

Comisiynodd y CPS ymchwil gan CAADA (Gweithredu Cydlynol yn erbyn Cam-drin Domestig) i ddarparu mewnwelediad i broffil a phrofiadau dioddefwyr, gyda chefnogaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAau), a geisiodd fynediad at y System Gyfiawnder Droseddol rhwng Ionawr a Rhagfyr 2011. Cyhoeddwyd adroddiad yng Ngorffennaf 2012 '[IDVA Insights into domestic violence prosecutions](#)' a nododd fod 72% o ddiodefwyr mewn achosion ble rydym wedi penderfynu cyhuddo wedi gweld y cam-drin yn dod i ben, gan godi i 74% os ceir euogfarn (Graff 7).

Gwelwyd yn glir fod gwaith partneriaeth effeithio rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau IDVA yn galluogi dioddefwyr i gael eu cefnogi'n ddiogel trwy erlyniad. Mae gwaith parhaus y CPS gydag IDVAau wedi dynodi gwerth y gwasanaethau cefnogaeth hyn ar lefel leol a phwysigrwydd parhau i'w hariannu.

Dangosodd yr ymchwil hefyd fod Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVCau) yn cyflawni gwell deilliadau na llysoedd eraill, a bod achosion sy'n cael eu clywed mewn SDVCau yn fwy tebygol o arwain at euogfarn. Mae IDVAau yn elfen allweddol yn y llysoedd hyn sy'n gweithio gyda'r CJS i gefnogi dioddefwyr a gwella erlyniadau llwyddiannus.

Graff 7: Darfyddiad cam-drin mewn dioddefwyr a gefnogwyd trwy'r system gyfiawnder droseddol



Cyflawnwr cyfresol

Mewn achos gan CPS Dwyrain Lloegr, roedd y diffynnydd wedi cam-drin dioddefwyr lluosog. Roedd cyfanswm o 10 partner gwahanol i'r diffynnydd wedi adrodd ar ymddygiad ymosodol i'r heddlu, nifer ohonynt yn ofni cymaint fel nad oeddynt yn gallu cefnogi cwyn, gyda'r rhai a wnaeth hynny yn ei dynnu'n ôl yn hwyrach. Roedd gan un o'i ddiodeffwyr blaenorol anafiadau cynddrwg fel ei bod yn baraplegig. Fe'i cafwyd yn euog o ymosodiadau domestig ar bedair menyw wahanol rhwng 1995 a 2006.

Cydnabuwyd yn gynnar fod tystiolaeth o gymeriad drwg yn mynd i fod yn allweddol o ran creu darlun i'r rheithgor. Cytunodd un diodeffwr i roi tystiolaeth i gefnogi cymeriad drwg, ond roedd y rhan fwyaf yn dal ofn y cyflawnwr ac roedd ei ymddygiad tuag atynt wedi dinistrio eu bywydau. Gwnaeth y swyddog ymchwilio ddatganiad yn adrodd ei ymdrechion i ganfod y diodeffwyr hyn a'r datgeliadau a gafwyd ganddynt, gan gynnwys yr ofn. Yna cafodd yr holl dystiolaeth hon ei chaniatáu i mewn yn y treial.

Cafodd y prif diodeffwr gefnogaeth trwy gydol y cyfan gan yr heddlu a chynhaliwyd cyfarfod mesurau arbennig. Cafwyd y diffynnydd yn unfryd euog o droseddau treisio, ABH, a throseddau eraill. Fe'i dedfrydwyd i garchar am oes am y troseddau o dreisio, tariff naw mlynedd yn ddilynol ar gyfer ABH, a dros saith mlynedd am y troseddau eraill.

Aflonyddu trais domestig

Yn 2012, cyhoeddwyd deddfwriaeth newydd ar stelcio, mae'r adran nesaf isod ar Aflonyddu yn darparu data cyffredinol ar droseddau aflonyddu³⁴. Amlinellir y troseddau aflonyddu, pryd y cychwynwyd erlyniad fel achos trais domestig, isod.

Dengys tabl 4, isod, yn 2012-13:

- Llumanwyd 4,217 o droseddau fel cyhuddiad trais domestig dan Adran 2 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu (PHA) 1997 – ymddygiad yn cyfateb i aflonyddu - (o gymharu â 4,710 yn 2011-12);
- Llumanwyd 775 o droseddau fel cyhuddiad trais domestig dan Adran 4 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu (PHA) 1997 – achosi i bobl ofni trais – (o gymharu â 1,056 yn 2011-12);
- Roedd hyn yn ostyngiad o 10% mewn erlyniadau A2 PHA 1997 a 27% yn A4 PHA 1997; fodd bynnag, erlynwyd mwy o doriadau o orchmynion ataliol;
- O fis Tachwedd 2012, cyflwynwyd y troseddau stelcio newydd – cyhuddwyd 67 o droseddau, 52 ohonynt ar gyfer stelcio heb ofn/dychryn neu drallod.
- Roedd 7,374 o'r toriadau gorchmynion ataliol yn ymwneud â thrais domestig; cynnydd o 16% o 2011-12;
- O'r rhain, roedd 220 yn doriadau o orchmynion ataliol a wnaed ar ryddfarn;
- Dechreuodd 4,414 o doriadau gorchmynion peidio aflonyddu erlyniad, o gymharu â 4,333 yn y flwyddyn flaenorol.

Er y cafwyd gostyngiad mewn erlyniadau aflonyddu penodol (o 10% ar gyfer Adran 2 a 27% ar gyfer Adran 4); roedd cynnydd o 16% mewn erlyniadau ar gyfer toriadau gorchmynion ataliol³⁵. Gallai hyn adlewyrchu aildroseddu gan yr un cyflawnwyr o bosibl, sy'n cael eu herlyn am doriadau o'u gorchmynion ataliol yn hytrach nag i drosedd bellach dan y PHA 1997, a fyddai'n gofyn am ddau ddigwyddiad i gyfateb i gwrs ymddygiad. Byddai torri gorchmynion ataliol yn gofyn am un digwyddiad, waeth beth yw math a natur y drosedd, a byddai'n cario dedfryd uwch.

³⁴ Y cafeat yng nghyswllt data trosedd yw:

Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawriad. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd yn Rhanbarth troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawriad - bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi p'un a aethpwyd ymlaen â'r drosedd honno ac nad oes dynodiad o ddeilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn drosedd sylweddol wrth derfynu. Mae'r cafeat hwn yn berthnasol i unrhyw ddata trosedd arall a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn.

³⁵ Roedd 493 yn llai o erlyniadau A2 wedi eu cyhuddo yn 2012-13; 281 yn llai o a4 a 1009 yn fwy o doriadau gorchmynion ataliol wedi eu herlyn.

Tabl 4: Troseddau aflonyddu a gyhuddwyd yn cyrraedd gwrandawriad cyntaf mewn llysoedd ynadon

		2012-2013				
		Llumanwyd fel traïs domestig		Holl droseddau eraill		Cyfanswm
Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) }	Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996	4,414	79.3%	1,149	20.7%	5,563
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) }	Aflonyddu heb draïs	4,217	58.9%	2,942	41.1%	7,159
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2A(1) a (4) }	Stelcio heb ofn / dychryn / trallod	52	72.2%	20	27.8%	72
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) }	Aflonyddu – achosi ofn o draïs	775	55.4%	623	44.6%	1,398
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(i) a (5) }	Stelcio yn ymwneud ag ofn o draïs	8	88.9%	1	11.1%	9
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(ii) a (5) }	Stelcio gyda dychryn / trallod difrifol	7	70.0%	3	30.0%	10
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar euogfarn	7,154	71.8%	2,808	28.2%	9,962
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar ryddfarn	220	70.3%	93	29.7%	313
		2011-2012				
		Llumanwyd fel traïs domestig		Holl droseddau eraill		CYFANSWM
Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) }	Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996	4,333	81.4%	990	18.6%	5,323
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) }	Aflonyddu heb draïs	4,710	61.1%	3,003	38.9%	7,713
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) }	Aflonyddu – achosi ofn o draïs	1,056	64.7%	576	35.3%	1,632
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar euogfarn	6,163	73.0%	2,284	27.0%	8,447
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar ryddfarn	202	70.6%	84	29.4%	286

Troseddwyr benywaidd

Hyd at Ebrill 2013, roedd yn rhaid i erlynydd awdurdodi Amod Penodol Menywod (WSC)³⁶ yn rhan o Rybudd Amodol. Fodd bynnag, daeth cod ymarfer diwygiedig ar Rybuddion Amodol i Oedolion i rym yn Ebrill 2013 gan ddarparu y gall swyddogion yr heddlu nawr wneud y penderfyniad i awdurdodi WSCau heb gyfeirio at y CPS.

Mae'r gyfran o garcharorion benywaidd sy'n adrodd cam-drin yn eu hoes yn ddwbl beth yw i ddyddion. Yn 2011, roedd hunan-niweidio 10 gwaith yn uwch nag ar gyfer dynion, ac roedd menywod yn y ddalfa ddwywaith yn fwy tebygol o ddiodef o ofid ac iselder. Mae gan nifer broblemau gyda chyffuriau a cham-drin alcohol, ac mae bron i ddau draean yn gadael plant dibynnol wrth fynd i'r carchar.

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder flaenoriaethau strategol ar gyfer troseddwyr benywaidd: darpariaeth well yn y gymuned i droseddwyr benywaidd; trawsnewid adsefydlu ar gyfer troseddwyr benywaidd (gan gydnabod anghenion menywod penodol); adolygu ystâd carchardai menywod erbyn haf 2013 a datblygu ymagwedd system gyfan, gan weithio gyda phartneriaid.

Sefydlwyd Bwrdd Cynghorol o randdeiliaid allweddol, partneriaid cyfiawnder troseddol ac uwch swyddogion o amrywiol adrannau'r llywodraeth.

Mae'r CPS wedi mynychu:

- Digwyddiad cenedlaethol ar droseddwyr benywaidd yn delio â merched a menywod ifanc dan risg, cyfleoedd i arallgyfeirio a charchar ac adleoli; a
- Lansio canllaw newydd sy'n cynnig offer i weithwyr proffesiynol gydnabod ac ymateb i anghenion iechyd a lles troseddwyr benywaidd a gyhoeddwyd gan Together – elusen materion iechyd meddwl.

³⁶ Mae'r Amod Penodol i Fenywod yn amod adferol i fynychu canolfan /prosiect menywod ar gyfer "asesiad anghenion" llawn, ac yna gall troseddwyr benywaidd fynychu'r ganolfan/prosiect ar sail wirfoddol i ymgysylltu mewn rhaglen i ddelio â'r anghenion sylfaenol a arweiniodd ar eu troseddu.

Aflonyddu

Yn 2012-13³⁷:

- Cychwynwyd erlyniad parthed 7,159 o droseddau a gyhuddwyd dan A2 PHA 1997 ar gyfer aflonyddu – gostyngiad o 7% o 7,713 yn 2011-12;
- Cychwynwyd 1,398 o erlyniadau dan A4 PHA 1997 – creu ofn o drais – lleihad o 14% o 1,632 yn 2011-12;
- Dechreuwyd 91 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd – 72 heb ofn/dychryn/aflonyddu ac 19 yn ymwneud â thrais / dychryn neu drallod, ers cyflwyno'r drosedd newydd yn Nhachwedd 2012;
- Fodd bynnag, dechreuodd 10,275 o droseddau torri troseddau gorchymyn ataliol, cynnydd o 18% o 8,733 yn 2011-12; ac
- O'r rhain, roedd 313 yn doriadau o orchmynion ataliol a wnaed ar ryddfarn; cynnydd o 9% o 2011-12;
- Dechreuodd 5,563 o doriadau gorchmynion peidio aflonyddu erlyniad, o gymharu â 5,323 yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r adran trais domestig blaenorol yn darparu tabl o droseddau aflonyddu ac yn amlinellu erlyniadau aflonyddu penodol yn ymwneud â thrais domestig (Tabl 4).

Nid oedd data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael ar adeg cyhoeddi ar gyfer y nifer o orchmynion ataliol a gyhoeddwyd ar euogfarn a rhyddfarn ar gyfer 2012.

O ddata'r Weinyddiaeth gyfiawnder, yn ystod 2012, roedd 6,470 o doriadau o orchmynion ataliol a gyflwynwyd ar euogfarn, gyda 5,699 yn cael eu dedfrydu³⁸, cynnydd o 5,233 o erlyniadau yn 2011 gyda 4,558 o euogfarnau. Dygwyd 130 o gyhuddiadau am dorri gorchmynion ataliol, yn ymwneud â'r rhai a gyhoeddwyd yn dilyn rhyddfarnu'r diffynnydd, ac o'r rhain, arweiniodd 98 ohonynt at euogfarn. Ar y cyfan, arweiniodd 88% o doriadau at euogfarn eleni, cynnydd o 1ppt o 2011. Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn delio â'r flwyddyn galendr a hefyd yn ymwneud ag achosion a erlynwyd ble roedd gorchmynion ataliol y prif droseddau a erlynwyd. Mae data'r CPS yn seiliedig ar flwyddyn ariannol sy'n cynnwys yr *holl* droseddau yn *cychwyn* erlyniad, nid ble mae gorchymyn ataliol yn brif drosedd yn unig.

³⁷ Troseddau a gofnodwyd yn Rhanbarth Troseddau System Rheoli Gwybodaeth y CPS yw'r rhai sy'n cyrraedd gwrandawriad. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon yn y gronfa ddata CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir yn Rhanbarth troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawriad. Bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi p'un a aethpwyd ymlaen â'r drosedd honno neu beidio, ac nad oes dynodiad o'r deilliant terfynol neu os yw'r drosedd a gyhuddwyd y drosedd wirioneddol ar derfynu.

³⁸ Gall y nifer o ddiffynnyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a chafwyd y diffynnyddion yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu y cafwyd y diffynnyddion yn euog o wahanol drosedd i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn. Mae'r ffigurau ar achosion llys yn ymwneud ag unigolion ble roedd y troseddau hyn y prif droseddau yr oeddynt yn delio â nhw. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Ble gweithredir yr un gwarediad am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddetholir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol uchaf. Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei echdynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a heddluoedd. O ganlyniad, dylid cymryd gofal i sicrhau yr ystyrir prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel wrth ddefnyddio'r data.

Deddfwriaeth

Cyflwynwyd dwy drosedd stelcio newydd yn Nhachwedd 2012, gan ddarparu canllaw ar gyfer erlynyddion. Cyflwynodd Adran 2A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio (trosedd ddiannod) ac fe gyflwynodd Adran 4A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio yn ymwneud ag ofn o ddychryn neu drallod difrifol sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd arferol (trosedd naill ffordd). Mae'r elfen atodol yn yr adran 4A newydd yn galluogi erlyn achosion yn bennaf pan fydd ymddygiad y diffynnydd islaw ofn o drais ond ei fod er hynny yn achosi dychryn neu drallod difrifol i'r dioddefwr.

Mae erlynyddion yn dal i wneud cais am orchmynion ataliol (yn cynnwys mewn achosion trais domestig) ar euogfarn a rhyddfarn.

Aflonyddu

- Cafodd gŵr a gynhaliodd "ymgyrch o aflonyddu" yn erbyn ei gyn gariad a'i theulu ei garcharu am 12 mlynedd. Rhoddodd gartref mam ei gariad ar dân a cheisio rhoi gorsaf heddlu gyfagos ar dân. Pan gafodd ei arestio, roedd bwa croes wedi ei lwytho a chylllell fawr ymysg yr eitemau a ganfuwyd yn ei gar.
- Barnwyd gŵr yn euog am aflonyddu adran 4 (gyda'r bwriad i achosi ofn neu drais). Bu'n cyflawni cam-drin llafar a chorfforol a bygythiadau o drais ar y dioddefwr (ei gyn gariad) yn ystod eu perthynas o naw mis. Dewiswyd y cyhuddiad i adlewyrchu difrifoldeb yr aflonyddu. Fe'i dedfrydwyd i 140 awr o wasanaeth cymunedol a'i orchymyn i dalu £3,300 o gostau.

Hyfforddiant


Datblygodd Coleg Erllyn y CPS fodwl e-ddysgu i gefnogi erlynyddion ymhellach i erlyn seiber stelcio, stelcio nad yw'n seiber ac aflonyddu, a gyflwynwyd yn 2012-13. Roedd yr hyfforddiant seiber stelcio yn delio ag adran 127 y Ddeddf Cyfathrebu 2003; adran 1 y Ddeddf Cyfathrebu Maleisus 1998 a'r drosedd o baratoi. Lanswyd hyn pan weithredwyd cyfreithiau stelcio newydd yn Nhachwedd 2012 a bydd yn ofynnol ar gyfer pob erlynydd o Fehefin 2013.

Yn ogystal, cynhwyswyd y troseddau newydd o stelcio mewn adolygiad o'r hyfforddiant e-ddysgu trais domestig ym Mawrth 2013 ac mae modwl e-ddysgu penodol newydd ar stelcio ar y gweill ar gyfer yr hydref 2013.

Treisio

Yn 2012-13, patrwm cyffredinol erlyniadau treisio, unwaith eto, yw bod y CPS yn cyhuddo cyfran fwy o achosion, yn gollwng llai o achosion, yn cynnal y lefel o bledion euog ac yn sicrhau fod llai o achosion yn methu am resymau heblaw rhyddfarniad gan reithgor. Mae Graff 8 yn arddangos y tuedd cynyddol o euogfarnau treisio'r CPS yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Graff 8: Cyfraddau euogfarn treisio 2007-08 i 2012-13



Rape Convictions – Euogfarnau Treisio

Linear - Llinol

Yn 2012-13, cynyddodd y gyfran o achosion treisio a erlynwyd yn llwyddiannus i'r lefel uchaf i'w chofnodi erioed.

Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion yn arwain at euogfarn am dreisio, ond hefyd achosion a gafodd eu cyhuddo a llumanu fel treisio o'r cychwyn, ble cafwyd euogfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar euogfarnau achosion a gyhuddwyd ac a gafwyd yn euog o dreisio yn unig. Gosodir y lluman i ffeiliau'r CPS o gychwyn yr achos; bydd y faner yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel yr ystadegau cenedlaethol swyddogol am dreisio er mwyn rhoi cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny ble'r oedd yr euogfarn derfynol am dreisio.

Ystadegau cenedlaethol swyddogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r [ystadegau treisio cenedlaethol](#) gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dynodi yn 2012 y cafwyd 2,822 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd³⁹, wedi eu herlyn am dreisio yn y llysoedd ynadon, gyda 2,765 wedi eu hanfon i Lys y Goron ar gyfer achos. Yn 2012 cafodd 1,145 o droseddwyr euogfarn o dreisio, gan arwain at gymhareb erlyniad i euogfarn yn 2012 o 41%, cynnydd o 40% yn 2011. Nid yw'r gymhareb hon yn cymryd i ystyriaeth ddiffynyddion a erlynir am dreisio ond sy'n eu cael yn euog yn Llys y Goron am drosedd arall.

Cyhoeddir gwybodaeth ar erlyniadau ac euogfarnau yn chwarterol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fodd bynnag, dim ond yn flynyddol y cyhoeddir data lefel trosedd manwl, e.e. trais, ar gyfer y flwyddyn galendr gyflawn, i sicrhau fod y data i gyd wedi ei dderbyn a'r prosesau dilysu wedi ei chwblhau.

Data rheolaeth perfformiad y CPS

Cafwyd cynnydd yn y gyfran o achosion a gyhuddwyd o'r rhai a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2012-13, cyhuddwyd 47.2% – cynnydd o 5.1ppt o'r flwyddyn flaenorol⁴⁰ a 10.5ppt o 2010-11. Cododd y gymhareb cyhuddo i NFA ar gyfer achosion treisio o 0.9:1 yn Ch4 2011-12 i 1.2:1 yn Ch4 2012-13. Mae cywirdeb llumanu achosion wedi gwella yn ystod y flwyddyn, yn codi o 93.5% yn Ch4 2011-12 i 96.4% yn Ch4 2012-13.

O ddata'r CPS, erlynwyd 3,467 (97.5%) o achosion a lumanwyd yn gyntaf fel treisio ar gyfer y categorïau prif drosedd⁴¹ 'troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio' neu brif droseddau mwy difrifol o 'ddynladdiad' neu 'droseddau yn erbyn y person' yn y pen draw. O'r rhain, roedd 3,229 ar gyfer troseddau rhywiol yn cynnwys treisio; chwech ar gyfer dynladdiad a 232 ar gyfer troseddau yn erbyn y person.

Dengys data rheoli achosion y CPS (tabl 5) fod y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd wedi gostwng ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf o 4.5% i 3,692. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yn erbyn y gostyngiad cyffredinol yn yr holl erlyniadau ditiadwy yn unig yn Llys y Goron o 3.9% yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae llwyth achosion fel cyfran o'r holl droseddau ditiadwy yn unig wedi parhau'n sefydlog ar tua 9.8%.

Yn 2012-13, roedd cynnydd o 0.7ppt mewn euogfarnau am dreisio – o 62.5% yn 2011-12 i 63.2% yn 2012-13. Dyma'r gyfradd euogfarn uchaf i'w chofnodi ar gyfer treisio hyd yn hyn. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ataliwyd llai o achosion – dim ond 13.7% o'r holl achosion, gostyngiad o 2.5ppt.

³⁹ Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Pan ystyrir mwy nag un drosedd mewn achos llys neu ddigwyddiad rhybuddio, tybir mai'r drosedd a fyddai/ a wnaeth ddenu'r deiliant dedfrydu mwyaf llym yw'r Brif drosedd ac mae'r troseddau eraill yr ymdrinnir â nhw yn yr achos hwnnw'n cael eu hanwybyddu. Os yw dwy drosedd yn yr un achos yn denu'r un ddedfryd, y drosedd sydd â'r ddedfryd statudol fwyaf a dybir yw'r 'Brif drosedd'.

⁴⁰ Cynyddodd deg o Ardaloedd y gyfran o achosion a erlynwyd o'r rhai a anfonwyd ymlaen i'r CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniad cyhuddo.

⁴¹ Gweler y Rhestr Termiau am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau. Mae'r data categori prif drosedd a gofnodir gan y CPS yn y System Rheoli Achosion yn orgynnol wrth gymharu â'r niferoedd erlyniad cyffredinol yn yr un cyfnod. Mae deilliannau a arweiniodd at derfyniad gweinyddol neu achosion anghyflawn, ble na ddyrannir categori prif drosedd, wedi eu heithrio.

Parhaodd pledion euog yn gymharol sefydlog ar 39.7% yn 2012-13. O'r holl ddeilliannau llwyddiannus, roedd 63% o ganlyniad i bledion euog.

O'r holl resymau dros ddeilliannau aflwyddiannus, cododd y gyfran oedd o ganlyniad i ryddfarnau gan reithgor ychydig - o ddim ond 51% yn 2011-12 i 56.3% yn 2012-13. Efallai y bydd angen mwy o waith gyda phartneriaid i ddelio ag ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i herio mythau ac ystrydebau, sydd wedi arwain yn draddodiadol at gyfraddau athreuliad uchel gan reithgor mewn achosion troseddau rhywiol.

Tabl 5: Erlyniadau treisio a gwblhawyd yn ôl deiliant

	2007 - 08		2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012-13	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	2,021	57.7%	2,018	57.7%	2,270	59.4%	2,465	58.6%	2,414	62.5%	2,333	63.2%
Aflwyddiannus	1,482	42.3%	1,477	42.3%	1,549	40.6%	1,743	41.4%	1,450	37.5%	1,359	36.8%
Cyfanswm	3,503		3,495		3,819		4,208		3,864		3,692	

O'r holl ddeilliannau aflwyddiannus, roedd y rhai oherwydd materion dioddefwyr yn atebol am 12.5%. Gostyngodd chwech o ardaloedd y gyfran o achosion aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr. Mae deilliannau aflwyddiannus blwyddyn ar flwyddyn oherwydd materion dioddefwyr wedi gostwng gan gyfateb i ostyngiad o ychydig dan chwe phwynt canrannol o 2007-08. Credir bod hyn yn adlewyrchu'r gefnogaeth well ar gyfer dioddefwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod deilliannau aflwyddiannus oherwydd tynnu yn ôl wedi lleihau o ychydig dan wyth y cant yn 2007-08 i ychydig dros bedwar y cant yn 2012-13.

Perfformiad Ardaloedd

Mae'r tabl ar dudalen 65 yn darparu data erlyniadau treisio yn ôl Ardal. Yn 2012-13, yr Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda parthed cyfraddau euogfarn treisio, h.y. y gyfran uchaf o achosion llwyddiannus, oedd:

Tabl 6: Holl erlyniadau treisio yn ôl canlyniad yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol

	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	2,333	63.2%	1,359	36.8%	3,692
Glannau Mersi a Swydd Gaer	90	70.9%	37	29.1%	127
Dwyrain Lloegr	136	67.7%	65	32.3%	201
Dwyrain Canolbarth Lloegr	188	67.6%	90	32.4%	278

Gwellodd Glannau Merswy a Swydd Gaer eu cyfradd euogfarn o 13.8ppt o'r flwyddyn flaenorol, gyda glannau Merswy yn cyflawni 71.0% o ddeilliannau llwyddiannus. Ar y cyfan, gwellodd chwech o Ardaloedd eu deilliannau erlyn. Yr Ardaloedd yn erlyn y nifer uchaf o achosion treisio oedd Llundain 667 (gyda 55.0% o ddeilliannau llwyddiannus – lleihad o 1ppt o 2011-12); Gogledd Orllewin Lloegr 455 (gyda 62.2% yn llwyddo, lleihad o 0.5ppt) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (gyda 67.2% yn llwyddo – cynnydd o 5.2ppt o 2011-12) Mae gan Orllewin Canolbarth Lloegr gyfradd euogfarn sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 63.2%.

Gweithredoedd arfer da

- Mae'r ddwy Uned RASSO yng Nglannau Merswy a Swydd Gaer wedi eu cydleoli mewn eiddo heddlu. Mae hyn yn galluogi eu cynnwys yn gynnar iawn mewn achosion, datblygu llinellau cyfathrebu ac arferion gwaith clir ac effeithiol. Cynhelir sesiynau briffio yn y bore i sicrhau bod staff yn ymwybodol o ymchwiliadau parhaus a materion newydd sy'n cael eu dwyn i mewn i'r Uned. Mae dilyniant staff hyfforddedig yn sicrhau perchnogaeth achosion ac ymagwedd gyson. Rhoddir adborth a chynghor i'r heddlu er mwyn gallu mynd ar drywydd ymchwiliadau yn effeithiol a chynnig cefnogaeth.
- Mae'r gwelliannau ym mherfformiad treisio gan CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr yn y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o achosion treisio yn cael eu dwyn ymlaen gan gnewyllyn cymharol fach a phrofiadol iawn o arbenigwyr treisio. Maent yn talu sylw arbennig i gaffael deunydd trydydd parti cyn cyhuddo a chyflawni cyfarfodydd mesurau arbennig cyn y treial gyda dioddefwyr ble maent yn cwrdd â'r cwmsler. Mae ISVAau wedi darparu adborth positif fod hyn yn helpu cynyddu hyder dioddefwr. Mae Uwch Adfocad y Goron profiadol iawn yn cyflawni nifer o'r achosion, gyda'i chyfraniad cyn yr achos ac adborth yn dilyn yr achos yn helpu datblygu eu strategaeth dwyn achos.

Asesiad ansoddol o achosion treisio

Mae cymhariaeth o'r asesiadau o fewn Monitro Safonau Ansawdd Craidd achosion trais gyda'r holl achosion yn dynodi ymateb cyffredinol gwell i'r holl ymroddiadau⁴². O Ebrill 2012 – Mawrth 2013 aseswyd 13,278 o achosion CPS ar y cyfan, gyda 715 yn achosion treisio (5.4% o'r holl achosion a aseswyd, un pwynt canrannol yn llai na 2011-12). Aseswyd erlyniadau treisio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer y rhan fwyaf o ymrwymadau:

- Darparu cynghor cynnar o ansawdd;
- Gwrthwynebu mechnïaeth;
- Paratoi achos, yn arbennig canlyniad aflwyddiannus y gellir ei osgoi a sicrhau y rhoddir cyfarwyddyd digonol i adfocadau;

⁴² Cyfrifir sgôr â phwysau i'r lefel o ymrwymadau sy'n cael eu cwrdd; ar gyfer bob achos mae'r sgôr yn 0.87, ar gyfer achosion treisio 0.90.

- Cynrychioli'r achos;
- Cydymffurfriad gyda materion dioddefwyr a thystion;
- Llythyrau Cyfathrebu Uniongyrchol Amserol (DCV) gyda'r Dioddefwr.

Dim ond tri chasgliad oedd angen gwelliannau, 'cyfeiriad at geisiadau ategol a materion ategol', 'cyfarwyddiadau priodol i erlynydd y llys' a 'safon cyfathrebu DCV'. Defnyddir y casgliadau hyn ar lefel Ardal i hysbysu pa welliannau y gellir eu gwneud i ansawdd erlyniadau.

Ers Ionawr 2011, mae Ardaloedd wedi darparu sicrwydd ansoddol manylach o tua chwarter eu hachosion treisio bob chwe mis. Yn Ebrill 2013, darparodd cydlynwyr VAWG y pumed asesiad o achosion i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r DPP i nodi materion ym mhob Ardal ble byddant yn canolbwyntio gwelliannau yn y dyfodol. Dynododd eu hasesiadau welliannau parhaus yn ystod y flwyddyn yn nosbarthiad achosion i arbenigwyr treisio; llai o achosion o ddim gweithredu pellach a gwelliannau mewn cyfarwyddiadau i gwnsleriaid. Fodd bynnag, cydnabu nifer o Ardaloedd fod angen gwaith pellach i wella ymgynghori cynnar gyda'r heddlu; cynnal trafodaeth gyda chwnsleriaid a chael adroddiadau wedi achosion ganddynt ; materion dioddefwyr megis mesurau arbennig ac ystyriaeth o gyfweliadau tystion cyn treial.

Sexsomnia

Yn CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr, dedfrydwyd gŵr i chwe blynedd o garchar yn dilyn her lwyddiannus trwy ddadleuon cyfreithiol i'w amddiffyn o 'sexomnia' (cerdded yn ei gwsg) i gyhuddiad o dreisio gerbron barnwr yn Llys y Goron. Arddangosodd tîm yr erlyniad i'r llys na allai awtomatiaeth nad oedd yn wallgof, trwy rinwedd cerdded yn ei gwsg, na gwallgofrwydd dros dro fod yn amddiffyn yn yr achos hwn.

Sicrhodd erlynyddion dystiolaeth o'r lleoliad ble digwyddodd y drosedd dramor ar wyliau a defnyddio arbenigwyr meddygol i herio'r amddiffyn o gerdded yn ei gwsg. Derbyniodd ddedfryd o 3.5 mlynedd o gystodaeth.

Materion cydraddoldeb

Rhyw

Yn 2012-13, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, yn 99%, cynnydd bychan ers 2011-12. Nid yw cofnodi rhywedd dioddefwr, ar 74% yn 2012-13, yn ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Ethnigrwydd

Yn 2012-13, dosbarthwyd ychydig dros 63% o ddiffynyddion troseddau treisio fel Gwyn, gydag ychydig dan 58% wedi eu nodi fel perthyn i'r dosbarth Gwyn Prydeinig (dros bum pwynt canrannol yn llai na'r flwyddyn flaenorol). Nodwyd bod 8.5% o'r diffynyddion yn Asiaidd – cynnydd o 1.3ppt o 2011-12, a nodwyd 10.6% fel Du – cynnydd o 0.6ppt⁴³. Roedd

⁴³ Ni ddatganodd ychydig dros 5% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd 9% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – cynnydd o 7% ar y flwyddyn flaenorol.

Ileihad o dros 2ppt mewn cofnodi ethnigrwydd diffynnydd. Er bod cofnodi ethnigrwydd dioddefwyr wedi gwella ychydig yn y flwyddyn ddiwethaf, ni chofnodir 68% o ethnigrwydd dioddefwyr o hyd; felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynnyddion rhwng 25-59 oed (59%) a 18-24 (23%). Roedd yn bryder nodi bod bron i draean y diffynnyddion (1,145) dan 24, gyda 274 (ychydig dros 7%) o ddiffynnyddion rhwng 14-17 oed a 36 (1%) rhwng 10-13 oed. Mae cofnodi oed dioddefwyr wedi gwella hyd at 70%, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Achosion treisio ieuencid

Mewn achosion ar wahân, cafodd dau o fechgyn yn eu harddegau eu herlyn am dreisio yn y Gogledd Orllewin. Cyflawnodd un bachgen drais y wain a geneuol yn ogystal ag ymosodiadau rhywiol ar ddwy ferch. Plediodd yr ail yn euog i dreisio merch bedair oed, gyda'r erlynydd yn nodi oed y dioddefwr, y gwahaniaeth yn eu hoedran a natur y gweithgaredd rhywiol fel ffactorau gwaethybol. Derbyniodd ddedfryd o dair blynedd.

Materion trawslywodraeth

Mae'r CPS yn rhan o'r gwaith trawslywodraeth ar dreisio, a oruchwylir trwy Grŵp Cenedlaethol dan arweiniad y Swyddfa Gartref ar Drais Rhywiol yn erbyn Plant a Phobl Fregus. Mae'r CPS, trwy ei Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi, yn arwain fel yr eiriolydd i wella'r modd mae'r system gyfiawnder droseddol yn ymateb i ddioddefwyr cam-drin rhywiol.

Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol

Roedd gan chwech o Ardaloedd CPS (hanner y Gwasanaeth) Unedau Treisio a Throseddau Rhyw Difrifol (RASSO) neu Unedau Diogelu'r Cyhoedd (PPU) yn delio â threisio a throseddau rhywiol difrifol yn 2012-13 – Llundain, Glannau Mersi a Swydd Gaer, De Ddwyrain Lloegr, Wessex, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber – gyda phedwar ohonynt yn gwella eu cyfraddau euogfarnau yn ystod y flwyddyn.

Ers Ch4 2010-11, mae pob un o'r Ardaloedd gydag Unedau RASSO wedi gwella eu perfformiad ar dreisio yn sylweddol o gymharu â'r Ardaloedd hynny heb Unedau RASSO⁴⁴. Gwellodd Glannau Merswy a Swydd Gaer eu cyfradd euogfarnau o dros 13% a Wessex o dros 14%.

Yn dilyn y perfformiad meintiol ac ansoddol gwell a nodwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ym Mawrth 2013 cyhoeddodd y DPP weithrediad Unedau RASSO ym mhob Ardal.

⁴⁴ Gwellodd yr holl Unedau RASSO euogfarnau, yn amrywio o welliant o 3ppt hyd at 14ppt (Ch4 2010-11 i Ch4 2012-13). Gostyngodd pedwar o'r saith ardal nad oeddynt yn RASSO mewn perfformiad (amrediad cyffredinol o -3.4ppt i 7ppt, ar wahân i un Ardal heb RASSO a wellodd ei deilliannau o 11%).

Mae'r achos canlynol yn arddangos y defnydd o Unedau RASSO.

Arfer da RASSO

Sefydlodd CPS De Ddwyrain Lloegr uned Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol yn Chwefror 2012, gyda thimau ym mhob un o'i dri Dosbarth. Cafwyd ymroddiad cryf gan y tîm o uwch reolwyr yn ysgogi'r uned ymlaen. Diweddarwyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth i amlinellu disgwyliadau gan y CPS a'r heddlu. Nodwyd arfer da a manteision:

- Trafodir achosion yn fwy rheolaidd a rhoi cyngor cynnar i gynorthwyo ymchwiliadau ac erlyniadau yn y dyfodol.
- Gwelliannau mewn perfformiad cyffredinol a chymorth i wella cyfraddau canfod.
- Mae pob heddlu yn gweld bod y cydlynwyr treisio yn angerddol ynglŷn â phwnc RASSO ac maent yn ganolog i broses graffu'r heddlu.

Roeddynt hefyd wedi derbyn adborth positif gan gwnsleriaid a gyfarwyddwyd gan yr

Unedau RASSO – yn nodi achosion wedi eu paratoi'n dda, gyda chasglu ac adolygu cynnar o ddeunydd na ddefnyddiwyd gydag asiantaethau perthnasol. Darperir cefnogaeth i dystion trwy gynnig rheolaidd o gyfarfodydd mesurau arbennig.

Erlynyddion arbenigol treisio hyfforddedig ac aelodau'r Bar

Erbyn Ionawr 2013, hyfforddwyd cyfanswm o 819⁴⁵ o erlynyddion arbenigol yn yr ymagwedd seiliedig ar deilyngdod i ddelio ag euogfarnau treisio. Ym Mawrth 2013, cynhaliwyd pump cwrs pellach i ddod â'r cyfanswm i 873.

Yn 2012-13 achredodd y CPS nifer o gyrsiau troseddau rhywiol a redwyd gan y Bar ar gyfer ei aelodau, gan ddarparu siaradwyr i ddelio â pholisi CPS ar erlyn trais.

Adfocadau treisio a gwrandawiadau dros dro

Er mwyn sicrhau fod yr holl wrandawiadau mewn achosion treisio yn cael eu herlyn i'r safon uchaf posibl, mae'r canllaw ar dreisio nawr yn pwysleisio fod disgwyl i'r adfocad a benodir gyflawni'r holl wrandawiadau, ac nid dim ond yr achos ei hun. Mae hyn yn cynnwys, ble bynnag fo'n bosibl, y gwrandawiadau dros dro yn cynnwys ceisiadau am fechnïaeth. Os nad yw'r adfocad a benodwyd ar gael, dylai adfocad arall achrededig o'r un Siambrau (neu arbenigwr treisio CPS os bydd yn HCA mewnol) gynnal y gwrandawriad wedi derbyn cyfarwyddyd gan yr adfocad a benodwyd.

⁴⁵726 o arbenigwyr treisio Ardal, 88 CPS Direct a 5 Grŵp Troseddau Difrifol.

Cyhuddiadau o dreisio yn gysylltiedig i lofruddiaeth sy'n cael eu cadw ar ffeil

Ymgynghorwyd â theuluoedd dioddefwyr ar a ddylai cyhuddiadau o dreisio sy'n gysylltiedig â lofruddiaeth gael ei herlyn, yn dilyn Canllaw Cyfreithiol a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2012. Mae'r *Canllaw ar Gyhuddiadau o Dreisio yn Gysylltiedig i Lofruddiaeth sy'n Cael eu Cadw ar Ffeil* yn dilyn cyfarfodydd rhwng y DPP a rhieni Jane Clough, a lansiodd ymgyrch wedi i'w merch gael ei lladd gan ei chyn bartner wrth iddo aros am yr achos am ei threisio. Eglurodd Mr a Mrs Clough i'r DPP fod y teimlad o anghyfiawnder y bydd teuluoedd dioddefwyr yn teimlo pan na fydd cyhuddiad o dreisio yn cael ei erlyn wedi i rywun gyfaddef i ladd yr aelod o'u teulu.

I ddatblygu'r canllaw newydd, ymgynghorodd y CPS yn fewnol ac yn allanol i gasglu barnau buddgyfranogwyr oedd yn hysbysu cynnwys y fersiwn derfynol. Oherwydd difrifoldeb ymdriniaeth y CPS o dreisio, dylid erlyn cyhuddiadau o dreisio ym mhob un ond yr achos mwyaf eithriadol. Bydd ymgynghori gyda theulu'r dioddefwr hefyd fel arfer yn allweddol. Bydd erlynyddion yn esbonio'r holl faterion ac oblygiadau unrhyw benderfyniadau ac yn gwahodd y teulu i fynegi eu barn, a fydd yn cael ei ystyried yn ofalus a'i bwysu a'i fesur cyn gwneud penderfyniad.

Llwyddiant erlyniad dwbl

Cafwyd diffynnydd a'i cafwyd yn ddieuog o dreisio 26 mlynedd yn ôl yn euog yn dilyn achos oherwydd tystiolaeth DNA ffforensig 'newydd a chymhellow'. Cafodd ei ddedfrydu i wyth mlynedd o garchar.

Cyhuddiadau ffug

Cyhoeddodd y DPP ganllaw cyfreithiol newydd ar wyrdroi hynt cyfiawnder yng Ngorffennaf 2011 ac, am gyfnod o 17 mis, gofynnodd i'r holl Ardaloedd CPS gyfeirio pob achos yn ymwneud â chyhuddiad o dreisio, trais domestig neu'r ddau a honnwyd i fod yn ffug ato i'w ystyried. Ym Mawrth 2013, cyhoeddwyd adroddiad cyntaf erioed [*Charging perverting the course of justice and wasting police time in cases involving allegedly false rape and domestic violence allegations*](#).

Archwiliodd yr adroddiad y cyfnod 17 mis a dangos fod cyhuddiadau ar gam o dreisio a thrais domestig efallai yn fwy prin nag yr ystyriwyd yn flaenorol. Dim ond mewn nifer fechan iawn o achosion yr ystyriwyd bod yna ddigon o dystiolaeth, a'i bod er lles y cyhoedd, i erlyn rhywun a amheuwyd o wneud cyhuddiad ar gam o dreisio ac/neu drais domestig.

Roedd y gwaith hwn yn cysylltu gyda hyfforddiant erlynyddion i wasgaru mythau ac ystrydebau sy'n gysylltiedig ag achosion o dreisio. Un o'r credau cyfeiliornus yw bod cyhuddiadau ffug o dreisio a thrais domestig yn beth cyffredin. Cyflwynodd yr adroddiad ddarlun mwy cywir. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, cafwyd 5,651 o erlyniadau ar gyfer treisio, ond dim ond 35 am wneud cyhuddiad ar gam o dreisio. Roedd 111,891 erlyniad am

drais domestig, ond dim ond chwech am wneud camgyhuddiadau o drais domestig. Cyhuddwyd tri o bobl eraill am wneud cyhuddiad ffug o dreisio a thrais domestig.

Mae'r CPS yn cydnabod, fodd bynnag, pan fydd cyhuddiad ffug o dreisio a thrais domestig yn digwydd, eu bod yn ddifrifol: gellir dinistrio enw da rhywun a diffeithio bywydau o ganlyniad. Felly delir yn llym ag achosion o'r fath a dylai'r rhai sydd wedi eu cyhuddo ar gam deimlo'n hyderus y bydd y system gyfiawnder droseddol yn erlyn yr achosion hyn ble bynnag y ceir tystiolaeth ddigonol a'i bod er lles y cyhoedd i wneud hynny.

Mae'r adroddiad wedi taflu goleuni ar ym mha gyd-destun fydd pobl yn gwneud cyhuddiad ffug, gan ddangos bod nifer sylweddol o'r achosion hyn yn ymwneud â phobl ifanc, fregus yn aml, ac weithiau hyd yn oed blant. Roedd tua hanner yr achosion yn ymwneud â phobl 21 oed neu iau, a rhai yn ymwneud â phobl gydag anawsterau iechyd meddwl. Gwelwyd ei bod yn beth prin iawn i un a ddrwgdybiwyd wneud cyhuddiad ffug o dreisio neu drais domestig yn gyfan gwbl trwy falais. Dangosodd yr adroddiad fod y canllaw yn glir, ac yn 2013-14 bydd cyngor pellach i helpu gyda rhai o'r achosion mwyaf cymhleth yn cael ei ychwanegu.

O fis Mai 2012, cafodd y cyfrifoldeb o benderfynu a ddylid cyhuddo am wyrddroi llwybr cyfiawnder neu wastraffu amser yr heddlu mewn achosion a honnwyd i fod yn gyhuddiadau o dreisio neu drais domestig ar gam ei ddychwelyd i'r Ardaloedd. Mae'r Ardaloedd hyn yn adrodd bob dwy flynedd i'r DPP ar achosion a gyhuddwyd ac ym Mehefin 2013, cyflawnwyd hap sampl o 25% o'r achosion i sicrhau cydymffurfiaid â'r canllaw.

Dioddefwyr

Mae nifer o LSIPau Ardal yn cynnwys craffu ar achosion treisio i hysbysu dysgu lleol, ynghyd â monitro ansawdd ac asesiad ansoddol VAWG o ymgysylltiad cymunedol lleol.


Cyfathrebu gyda dioddefwyr

Mae llythyr Dilyn Cyhuddiad o Dreisio yn cael ei ddatblygu mewn Ardal, i godi hyder dioddefwyr trais i aros gyda'r broses erlyn. Cafwyd cytundeb lleol i erlynyddion RASSO CPS Llundain ysgrifennu at ddioddefwyr yn dilyn cyhuddo ac i beidio eu cyfeirio trwy'r Unedau Gofal Tystion. Mae hyn er mwyn galluogi gwasanaeth mwy pwrpasol ac i helpu gwella perfformiad erlyniadau treisio.

Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Cynyddodd y gyfran o erlyniadau llwyddiannus am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio, yn 2012-13, yn dilyn lleihad bychan yn y flwyddyn flaenorol, fel y nodwyd yng Ngraff 9 isod.

Graff 9: Cyfradd euogfarnau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2007-08 i 2012-13



Sexual Offences Convictions - Euogfarnau Troseddau Rhywiol

Linear - Llinol

O ddata'r CPS, fel yn Nhabl 7, mae'r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd wedi gostwng ychydig o 6.8% i 7,771 o 8,334 yn 2011-12. Fodd bynnag, dylid edrych ar y gostyngiadau hyn yn erbyn y lleihad mewn nifer ar draws yr holl achosion CPS a erlynwyd o 10%.

Cynyddodd y gyfran o ddeilliannau llwyddiannus i 76.8%, cynnydd o bron i 1.1ppt o 2011-12; gyda chynnydd o bron i 3ppt mewn pledion euog i 63% (83% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus).

Tabl 7: Erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd yn ôl deilliant

	2007 - 08		2008 - 09		2009 - 10		2010 - 11		2011 - 12		2012-13	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	5,976	73.5%	5,955	75.1%	6,060	76.0%	6,588	74.3%	6,308	75.7%	5,971	76.8%
Aflwyddiannus	2,154	26.5%	1,979	24.9%	1,912	24.0%	2,274	25.7%	2,026	24.3%	1,800	23.2%
Cyfanswm	8,130		7,934		7,972		8,862		8,334		7,771	

Achos amlwg

Carcharwyd Cyn Ddarlledwr 83 oed y BBC, Stuart Hall, am 15 mis yn dilyn pledion euog i ymosodiad anweddus. Dros gyfnod o 18 mlynedd, fe ymosododd yn anweddus ar 13 o ferched a menywod ifanc, yn 9 i 17 oed. Plediodd yn euog wedi disgrifio'r cyhuddiadau (mewn modd cyhoeddus iawn ar y teledu) yn flaenorol fel celwydd.

Perfformiad Ardaloedd

Mae'r tabl ar dudalen 66 yn darparu data erlyniadau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) yn ôl Ardal. Yn 2012-13, roedd yr Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda o ran cyfraddau euogfarnau troseddau rhywiol fel a ganlyn:

Tabl 8: Holl erlyniadau troseddau rhywiol, ac eithrio erlyniadau troseddau treisio, yn ôl canlyniad – yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol

	Euogfarnau		Aflwyddiannus		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	
Cenedlaethol	5,971	76.8%	1,800	23.3%	7,771
Gorllewin Canolbarth Lloegr	632	83.9%	121	16.1%	753
Glannau Mersi a Swydd Gaer	253	82.1%	55	17.9%	308
De-orllewin Lloegr	416	79.8%	105	20.2%	521

Cynyddodd Gorllewin Canolbarth Lloegr a Glannau Merswy a Swydd Gaer eu cyfraddau euogfarn yn 2012-13 o ychydig dan 4ppt. Ar y cyfan, gwelodd wyth o Ardaloedd eu deilliannau erlyn. Roedd yr Ardaloedd yn erlyn y nifer uchaf o droseddau rhyw yn Llundain 1,382 (69.8% yn llwyddiannus – fel yn 2011-12); Gogledd Orllewin Lloegr 876 (78.0% yn llwyddiannus – lleihad o 2.5ppt) a Gorllewin Canolbarth Lloegr 753 (83.9% yn llwyddiannus – cynnydd o 3.36ppt o 2011-12).

Materion cydraddoldeb⁴⁶

Rhyw

Yn 2012-13, roedd y mwyafrif o ddiffynnyddion yn ddyinion, sef 97.5%, ychydig yn fwy nag yn y blynyddoedd diwethaf.

⁴⁶ Mae'r data ar ddiodefwyr yn dod gan y Gwasanaeth Rheolaeth Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddiodefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan fod y wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel diffynnydd yn unig.

Tor-ymdiriedaeth

Roedd nifer o achosion yn 2012-13 yn ymwneud â thor-ymdiriedaeth, yn arbennig tuag at blant a phobl ifanc, gan amrywiaeth o gyflawnwyr troseddau.

- Roedd meddyg yn Llundain yn ymosod ar fenywod yn rhywiol dan gochl cyflawni archwiliadau meddygol ac fe'i dedfrydwyd i bum mlynedd o garchar a'i roi ar y gofrestr troseddwr rhyw, gyda hysbysiad am ddeg mlynedd.
- Dedfrydwyd 'iachawr ysbrydol' i 16 mlynedd o garchar am 25 o droseddau rhywiol yn erbyn wyth o ddiodefwr, chwech o fenywod a dau blentyn, gan ei ddedfrydu i fwy nag ugain mlynedd, yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Roedd y troseddau yn cynnwys ymosodiadau ar fenywod a merch ifanc yr oedd i fod yn ei gwella.
- Erlynwyd dau achos o gam-drin disgyblion gan eu hathrawon yn Wessex – dedfrydwyd athro cerdd i 12 mlynedd wedi treisio a nifer o ymosodiadau rhywiol difrifol ar ei ddisgyblion a dedfrydwyd yr athro arall i bedair blynedd am droseddau rhyw yn dilyn paratoi ei ddisgyblion.
- Erlynwyd gweithiwr gofal am weithgaredd rhywiol gyda rhywun oedd â salwch meddyliol dan ei ofal yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Roedd yr achos yn bosibl diolch i gefnogaeth y gweithwyr gofal eraill a adroddodd y digwyddiad a chefnogi'r erlyniad yn llwyr. Dedfrydwyd y diffynnydd i 18 mis yn y ddalfa, cofrestru fel troseddwr rhywiol am 10 mlynedd a'i anghymhwysu rhag gweithio gydag oedolion bregus.

Ethnigrwydd

Yn 2012-13, nodwyd bod 64% o ddiffynnyddion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac roedd ychydig dan 69% wedi eu categoreiddio fel Gwyn (lleihad o 72% yn 2011-12) o'r rhai ble cofnodwyd ethnigrwydd⁴⁷. Nodwyd fod 7% o ddiffynnyddion yn Asiaidd (1ppt yn llai na'r flwyddyn flaenorol), ac roedd 6% wedi eu nodi fel Du, tebyg i'r flwyddyn flaenorol.

Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynnyddion rhwng 25-59 oed (66%) a 18-24 (17%).

Yn debyg i ddata treisio, roedd yn peri gofid i ni nodi fod bron i chwarter y diffynnyddion (1,716) dan 24 oed, gydag ychydig dan 5% o'r diffynnyddion (351) yn 14-17 oed ac ychydig dan 1% (51) yn 10-13 oed.

⁴⁷ Ni ddatganodd ychydig dros 5% o ddiffynnyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dros 9% o ethnigrwydd diffynnyddion i'r CPS gan yr heddlu – yr ail 3ppt yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod

Priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd

Ystyrir perfformiad dan y gyfundrefn sicrwydd ansawdd VAWG yn ôl Ardaloedd a'u hadrodd i'r DPP gan weithredu i unioni ble fo angen. Mae yna tua 90 o erlynyddion arbenigol priodas dan orfod (FM) a thrais seiliedig ar urddas (HBV).

Yn 2012-13, erlynwyd 41 o ddiffynyddion am FM, gyda 70.7% yn llwyddo, sy'n gynydd o 16 pwynt canrannol o 2011-12. Parthed achosion HBV, erlynwyd 200 o ddiffynyddion, gyda 63% yn llwyddiannus, sy'n gynydd o 13ppt ar y flwyddyn flaenorol⁴⁸.

Yr Ardaloedd yn erlyn y nifer mwyaf o erlyniadau FM a HBV oedd Llundain, Gogledd Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Arfer da Ardal

Mae nifer o Ardaloedd wedi arddangos arfer da ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas ac mae rhai Ardaloedd wedi cynnal cynadleddau lleol.

Gweithio mewn partneriaeth

- Cynhaliwyd cynhadledd ar briodas dan orfod yng Ngogledd Orllewin Lloegr gyda grŵp menywod Asiaidd lleol yn gweithredu fel eiriolwyr cyfoedion ar gyfer yr adfocadau TD lleol.
- Mae CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr yn cymryd rhan yn y gweithgor Priodas Dan Orfod lleol a bu'n cymryd rhan mewn cynhadledd FM ym Mawrth 2013.

Deddfwriaeth priodas dan orfod

Wedi ymgynghoriad cyhoeddus ar briodas dan orfod gan y Swyddfa Gartref, cyhoeddwyd deddfwriaeth newydd ym Mehefin 2012, i wneud y weithred o orfodi rhywun i briodi yn drosedd yng Nghymru a Lloegr. Yn rhan o'r cyhoeddiad hwnnw, bydd torri Gorchymyn Amddiffyn Priodas Dan Orfod (FMPO) hefyd yn drosedd. Bwriedir gweithredu hyn yn 2013-14.

⁴⁸ Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas yn cael ei ddiweddarau yn 2013-14, yn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth newydd priodas dan orfod ar gyfer erlynyddion arbenigol.

Achos amlwg

Dedfrydwyd rhieni Shafilea Ahmed am ei llofruddio gyda chymorth tystiolaeth gan ei chwaer. Cafodd y ddau eu dedfrydu i garchar am oes gydag isafswm o 25 mlynedd. Mae'r achos yn cynnwys cam-drin plant, trais seiliedig ar urddas a cham-drin domestig. Cymerodd naw mlynedd i ddod â'r erlyniad i'r llys gan nad oedd yn bosibl nes i un o'r teulu fod yn barod i siarad. Rhoddwyd cefnogaeth i'r chwaer a mesurau arbennig i'w helpu i roi tystiolaeth. Derbyniodd y gwaith ar yr achos wobwr gan y Gymdeithas Genedlaethol Erlynyddion y Goron Duon.

Llurgunio Organau Rhywiol Menywod

Cynhaliwyd cyfarfod ford gron gan y DPP ym Medi 2012. Roedd 31 o wahoddedigion yn mynychu'r cyfarfod, yn cynnwys seneddwyr, gweithwyr meddygol, cyrff anllywodraethol, uwch swyddogion yr heddlu, erlynyddion, arbenigwyr FGM a newyddiadurwyr i ystyried sut i ymateb i heriau adrodd ar, ymchwilio i ac erlyn achosion o FGM.

Nodwyd nifer o ffactorau sylweddol sy'n effeithio ar ymchwiliad yr heddlu ac erlyniadau yn ymwneud ag FGM. Ar y pryd y bydd yr FGM yn digwydd, nydd nifer o ddiodefwyr yn rhy ifanc a bregus neu'n rhy ofnus i adrodd ar droseddau neu i roi tystiolaeth yn y llys. Mae tabŵ diwylliannol ac amharodrwydd i adrodd ar y drosedd i'r heddlu yn ffactor arwyddocaol ac yn bryder.

O ganlyniad cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu'r DPP yn Nhachwedd 2012 gan gynnwys y camau canlynol:

- Casglu data mwy cadarn ar gyhuddiadau o FGM, er mwyn gallu mesur maint y broblem.
- Nodi pa faterion sydd wedi llesteirio ymchwiliadau ac erlyniadau.
- Archwilio sut mae awdurdodaethau eraill yn erlyn y drosedd hon. O ran y camau hyn, rydym yn gweithio gyda swyddfa'r DPP yn Awstralia ar hyn o bryd, ble mae'r achos cyntaf o FGM gydag wyth diffynnydd wedi ei gyhuddo.
- Sicrhau bod yr heddlu ac erlynyddion yn cydweithio'n agos o ddechrau ymchwiliadau.

Mae grŵp llywio dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi yn goruchwyllo cynnydd ar y cynllun gweithredu.

Cynadleddau lleol

- Bu'r CPS yn cymryd rhan mewn Cynhadledd Amlasiantaethol yn erbyn FGM a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Birmingham. Mynychodd gweithwyr gofal iechyd, athrawon, gweithwyr cyfreithiol yn gweithio ar achosion FGM, gweithwyr cymdeithasol, elusennau a sefydliadau dielw. Gweithiodd Uned Diogelu'r Cyhoedd Gorllewin Canolbarth Lloegr y CPS a'r CPS ar y cyd â rhanddeiliaid o'r gymuned arbenigol a sector gwirfoddol i ddatblygu cyfres o gyflwyniadau a phhecynnau canfod ffeithiau.
- Bu CPS De Orllewin Lloegr yn cymryd rhan yn yr ymgyrch FGM leol 2013 ym Mryste ar y Diwrnod Cenedlaethol Dim Goddefgarwch i FGM yn Chwefror. Cyfarfu amrywiaeth o bartneriaid lleol a phobl ifanc, yn cynnwys yr heddlu, CPS, aelodau'r ysgol, grŵp merched Somaliaidd, y GIG, grwpiau sector gwirfoddol a'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau lleol i arddangos y materion a'r gwaith arloesol a gyflawnwyd i godi ymwybyddiaeth o faterion FGM. Cefnogodd Maer Bryste'r prosiect hefyd a chynhaliwyd digwyddiadau codi ymwybyddiaeth FGM pellach. Gweithiodd y CPS gydag ymgyrch Somaliaidd leol a hyfforddodd wirfoddolwyr o'r cymunedau hyn (dynion a menywod) fel hyrwyddwyr ymwybyddiaeth a newid yn lleol. Mae cynrychiolydd Somaliaidd wedi cyfrannu i'r LSIP ar faterion VAWG.
- Yn dilyn arfer da Glannau Merswy a Swydd Gaer o weithio gyda phartneriaid ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas yn 2011-12, aethant ymlaen i sefydlu Grŵp Llywio Amlasiantaethol ar FGM yn 2012-13. Cynhaliont gynhadledd FGM ym Mawrth 2013 ac maent yn datblygu protocol FGM lleol.

Cam-drin yn seiliedig ar ffydd

Yn Llundain, erlynwyd dau achos o gam-drin yn seiliedig ar ffydd ac yn dilyn yr achosion hyn cyfarfuom gydag aelodau o'r gymuned gyda'r bwriad o lunio canllaw i erlynyddion ar ffurf pecyn cymorth. Mae'r gwaith yn parhau. Mae'r CPS yn gweithio trwy grŵp amlasiantaethol i ddelio â cham-drin plant yn gysylltiedig â ffydd ac yn cynnwys grwpiau cymunedol.

Cam-drin plant

Yn 2012-13, dynododd data gan y CPS ar gam-drin plant gynnydd yn y nifer o erlyniadau am ddynladdiad cam-drin plant, o 17 i 30, gyda deilliannau llwyddiannus mewn dros 73% o'r achosion hyn⁴⁹. Roedd yna ostyngiad yn y nifer o droseddau yn erbyn y sawl a erlynwyd, o 2,569 i 2,220 yn ogystal â chynnydd yn y nifer o ddeilliannau llwyddiannus o 71% i 74%. Gostyngodd erlyniadau troseddau rhywiol ychydig hefyd, o 4,655 i 4,051, gyda deilliannau llwyddiannus yn parhau'n sefydlog ar 76%. Roedd lleihad cyffredinol yn y nifer o achosion cam-drin plant⁵⁰ o 13% yn 2012-13 o gymharu â gostyngiad o 10% yng nghyfanswm yr holl erlyniadau CPS. Fodd bynnag, cynyddodd y gymhareb cyhuddo i NFA o 1.6 i 1.7 a chododd deilliannau cyffredinol o 74.3% yn 2011-12 i 75.1% yn 2012-13. Ceir manylion pellach yn Nhabl 9.

Tabl 9: Erlyniadau cam-drin plant

A Lladdiad	Euogfarnau		Aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
2007-2008	20	69.0%	9	31.0%	29
2008-2009	33	75.0%	11	25.0%	44
2009-2010	33	82.5%	7	17.5%	40
2010-2011	24	88.9%	3	11.1%	27
2011-2012	15	88.2%	2	11.8%	17
2012-2013	22	73.3%	8	26.7%	30
B Troseddau yn erbyn yr unigolyn	Euogfarnau		Aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
2007-2008	1,686	72.1%	651	27.9%	2,337
2008-2009	1,514	72.9%	563	27.1%	2,077
2009-2010	1,896	72.4%	723	27.6%	2,619
2010-2011	2,186	74.0%	767	26.0%	2,953
2011-2012	1,835	71.4%	734	28.6%	2,569
2012-2013	1,642	74.0%	578	26.0%	2,220
C Troseddau Rhywiol	Euogfarnau		Aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
2007-2008	2,841	72.1%	1,100	27.9%	3,941
2008-2009	3,011	74.7%	1,018	25.3%	4,029
2009-2010	3,133	75.7%	1,004	24.3%	4,137
2010-2011	3,551	74.1%	1,243	25.9%	4,794
2011-2012	3,530	75.8%	1,125	24.2%	4,655
2012-2013	3,070	75.8%	981	24.2%	4,051

⁴⁹ Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

⁵⁰ Achosion cam-drin plant ar gyfer dynladdiad, troseddau yn erbyn y person a throseddau rhywiol.

Dynion oedd y diffynyddion mewn 57% o erlyniadau lladdiad; 74% o droseddau yn erbyn yr unigolyn a 98% o droseddau rhywiol.

Niwed corfforol difrifol

Carcharwyd gŵr o Dde Ddwyrain Lloegr am 10 mlynedd am achosi niwed corfforol difrifol bwriadol i faban 30 mis oed. Roedd yr anafiadau yn cynnwys 26 toriad i'r asennau, torri dwy bont yr ysgwydd, toriad sbiral o'i fraich dde a thyllu ei ddau ysgyfant. Goroesodd y baban yr ymosodiad hwn. Rhoddodd gweithwyr meddygol dystiolaeth i brofi i'r rheithgor nad oedd yn bosibl achosi'r anafiadau hyn yn ddamweiniol.

Gweithredu trawslywodraethol ar gam-drin plant yn rhywiol

Cyflawnodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant ymchwiliad trylwyr, wedi ei rannu i ddau gam olynol, i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan gangiau a grwpiau yn Lloegr. Rheddodd y cam cyntaf o'i lansio yn Hydref 2011 tan Fedi 2012, gan gasglu gwybodaeth am natur a graddfa camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn gangiau a grwpiau. Cyhoeddwyd adroddiad dros dro gyda'u casgliadau yn gwneud argymhellion ar sut i nodi arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn trwy ddarparu ['Rhestr Wirio Arwyddion Rhybudd a Gwendidau'](#).

Cam-drin plant yn rhywiol:

- Dedfrydwyd gŵr a herwgiiodd bedair merch ifanc, mor ifanc â thair oed, ac ymosod arnynt yn anwedus, i 17 mlynedd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. Roedd y troseddau yn dyddio yn ôl 30 mlynedd.
- Cyfaddefodd offeiriad wedi ymdeol yn Nwyrain Lloegr i amrywiaeth o droseddau rhywiol yn erbyn plant dros 20 mlynedd yn ôl.
- Dedfrydwyd cyn athro i bum mlynedd o garchar hefyd yn Nwyrain Lloegr wedi cyfaddef iddo gam-drin plant yn rhywiol yn y gorffennol.

Cam-drin Plant yn Rhywiol CPS

Yn 2012-13 cyflawnwyd amrywiaeth o waith yn gyntaf parthed camfanteisio'n rhywiol ar blant ac yna dan fantell cam-drin plant yn rhywiol.

Ym Medi 2012, cynullwyd panel i adolygu achos paratoi Rochdale. Roedd hyn yn amlygu'r angen i newid y ffon fesur a ddefnyddiwyd yn draddodiadol gan erlynyddion i werthuso hygredd a dibynadwyedd dioddefwyr mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Cynhaliwyd seminar Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) yn Hydref 2012, gyda dros 80 o erlynyddion treisio a cham-drin plant arbenigol yn mynychu i wella eu dealltwriaeth o natur a chyd-destun CSE, o faterion dioddefwyr ac ymagwedd erlynyddion wrth ddelio ag achosion CSE.

Paratoi at Ryw

- Yn dilyn Ymgyrch Span yng Ngogledd Orllewin Lloegr, dygwyd naw o ddiffnyddion i gyfiawnder ym Mai 2012 pan y'u cafwyd yn euog o gam-drin rhywiol cyfresol difrifol, yn cynnwys achosion lluosog o dreisio, a rhoddwyd dedfrydau o gymaint â 19 mlynedd ar y prif gyflawnwyr. Roedd y dynion hyn yn targedu menywod ifanc bregus, gan honni i fod yn serchus tuag atynt trwy roi bwyd, arian, alcohol a sylw iddynt, tra'n eu paratoi a rheoli a mynnu eu bod yn talu hyn yn ôl gyda rhyw. Deliwyd ag unrhyw wrthwynebiad gyda bygythiadau a thrais. Cefnogi'r dioddefwyr oedd y brif flaenoriaeth trwy gydol yr erlyniad trwy ofal dioddefwyr arbennig a chyswllt fideo i'r llys. Mae gennym bellach ddealltwriaeth eglurach o sut mae'r rhwydweithiau camfanteisio'n rhywiol ar blant hyn yn gweithredu, ac mae ein gwybodaeth a dealltwriaeth arbenigol o'r achosion hyn wedi datblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Maent, mewn gwirionedd, yn droseddau cyfundrefnol, ac fe ddynesom yr erlyniad hwn yn yr un modd ar y byddem yn delio ag achos trosedd gyfundrefnol.
- Cafwyd un o'r dynion o Rochdale a oedd yn gysylltiedig â throseddau paratoi yn euog o achosion pellach o dreisio yn 2012. Fe'i cafwyd yn euog o gam-drin rhywiol difrifol yn erbyn merch ifanc. Fe'i darostyngodd i flynyddoedd o dreisio trwy gydol ei phlentyndod ers ei bod yn ifanc iawn, gan gamddefnyddio'r pŵer oedd ganddo fel oedolyn yn y modd gwaethaf posibl.
- Yng ngwanwyn 2013, cafodd rheithgor yn yr Old Bailey saith o ddynion yn euog am droseddau yn cynnwys treisio, hwyluso puteindra plant, a masnachu yn dilyn ymchwiliad dwy flynedd i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rhydychen. Roedd Ymgyrch Bullfinch yn ymchwiliad ar y cyd, a lansiwyd gan Heddlu Thames Valley a Gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Swydd Rhydychen ym Mai 2011, i droseddau rhywiol difrifol a amheuwyd yn erbyn nifer o blant a phobl ifanc yn Rhydychen. Dychwelodd y rheithgor 59 dyfarniad euog yn erbyn y dynion ar ddiwedd achos a barhaodd am bedwar mis.
- Erlynwyd achos paratoi yn Swydd Efrog a Glannau Humber yn llwyddiannus hefyd yn 2012-13.

Cydnabuwyd bod nifer o'r dioddefwyr yn fregus am eu bod nid yn unig yn ifanc, ond maent hefyd yn aml yn arddangos rhai neu'r cyfan o'r nodweddion canlynol: ni allant ymddiried yn hawdd yn y rhai mewn awdurdod ac yn llai tebygol fyth o adrodd manylion personol; maent yn defnyddio alcohol; maent yn dychwelyd at gyflawnwr y troseddau yn eu herbyn; ac, yn aml, maent yn hunan-niweidio. Os yw'r meini prawf ar gyfer profi eu hygrededd yn cyd-fynd â'r nodweddion sy'n eu gwneud yn fregus o'r cychwyn, cydnabuwyd bod yna ddiffyg sylfaenol yn yr ymagwedd i hygrededd. Ac mae'n amlwg o achosion camfanteisio'n rhywiol ar blant eraill a ddygwyd ers achos Rochdale y gallai'r nifer o ddioddefwyr dan risg fod yn sylweddol uwch nag yr ystyriwyd yn flaenorol.

Adolygiad Savile

Yn fuan wedi adolygiad y CPS o achos paratoi Rochdale, daeth cyhuddiadau o gam-drin rhywiol cyfresol gan Jimmy Savile i'r amlwg.

O ran y cyhuddiadau yn erbyn Savile, archwiliodd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol, Alison Levitt QC benderfyniadau a wnaed gan y CPS yn 2009 i beidio erlyn tri chyhuddiad a wnaed i Heddlu Surrey ac un cyhuddiad a wnaed i Heddlu Sussex yn 2007 a 2008. Casglwyd nad oedd dim i awgrymu bod y penderfyniadau i beidio erlyn wedi eu dylanwadu'n ymwybodol gan unrhyw gymhellid amhriodol ar ran naill ai'r heddlu neu erlynyddion, ond i ddiodefwyr a'u hadroddiad gael eu trin ag elfen o ofal nad oedd cyfiawnhad na galw amdano. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn llawn yn Ionawr 2013. Ar yr un pryd, cyhoeddodd yr Heddlu Metropolitan a'r NSPCC adroddiad ar wahân yn disgrifio'r cannoedd o gyhuddiadau a wnaethpwyd yn erbyn Jimmy Savile ac na adroddwyd ar y pryd. Ers dechrau Ymgyrch Yewtree yn Hydref 2012, mae tua 600 o bobl wedi dod ymlaen i ddarparu gwybodaeth i'r tîm ymchwilio, gydag oddeutu 450 ohonynt yn ymwneud â Jimmy Savile. Mae cyhoeddi Adroddiad Alison Levitt ar Savile ac Adroddiad Yewtree yn gynharach eleni wedi ei ddisgrifio gan y DPP fel 'trobwynt', gan alw am ymateb cadarn gan y CPS a phartneriaid cyfiawnder troseddol.

Rhwydwaith Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chanllawiau

Sefydlwyd rhwydwaith o arbenigwyr cam-drin plant yn rhywiol gyda Nazir Afzal, CCP Gogledd Orllewin Lloegr ac Eiriolwr VAWG, yn arwain. Cynhaliwyd seminar i lansio'r rhwydwaith ac i gynyddu gwybodaeth erlyn ar ddiwedd Ebrill 2013.

Ynghyd â'r Coleg Plismona, rydym wedi symleiddio ein canllawiau presennol ac wedi datblygu un ymagwedd eang ac ymagwedd gyffredin i'r heddlu ac erlynyddion. Cadeiriodd y DPP, ar y cyd ag ACPO, nifer o gyfarfodydd ford gron gyda grwpiau diodefwyr, yr heddlu, y farnwriaeth, cyfreithwyr, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cymorth arbenigol ac asiantaethau statudol i hysbysu datblygiad canllawiau dros dro newydd ar ymchwilio ac erlyn achosion cam-drin plant yn rhywiol. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ym Mehefin 2013 ac maent yn amodol i ymgynghoriad cyhoeddus dros dri mis.

Sefydlodd y canllawiau'r ymagwedd newydd i erlynyddion wrth adolygu achosion o gam-drin plant yn rhywiol a sut ddylid edrych ar hygredded y cyhuddiad cyffredinol o gam-drin, yn hytrach na chanolbwyntio ar hygredded y diodefwr. Bwriedir i'r canllawiau gwmpasu'r amrywiaeth o gam-drin plant yn rhywiol, yn cynnwys cam-drin sydd fel arfer wedi ei nodweddu fel camfanteisio'n rhywiol ar blentyn.

Yn ganolog i'r canllawiau mae:

- Canolbwyntio ar hygredded y cyhuddiad cyffredinol, yn hytrach nag at ddisgrifiad y diodefwr yn unig, trwy edrych ar y cyd-destun ehangach;
- Profi disgrifiad ac amgylchiadau'r sawl a ddrwgdybir yn llawer mwy;
- Sicrhau bod diodefwyr yn cael lefel uchel iawn o gymorth;
- Herio mythau ac ystrydebau a godir mewn llys am ymddygiad y diodefwr;
- Cynorthwyo'r llysoedd i sicrhau bod amserlennu effeithiol a chynnydd achosion yn digwydd sy'n helpu diodefwyr yn y llys.
- Cael mynediad at ddeunydd trydydd parti i adeiladu erlyniad achos.

Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol

Yn ogystal, fe sefydlwyd Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol gydag ACPO i edrych eto ar achosion hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol. Bydd y panel yn edrych ar achosion ble mae rhywun yn pryderu eu bod wedi gwneud cyhuddiad blaenorol o fod yn ddioddefwr cam-drin rhywiol, pan oeddynt dan 18 oed, ac i'r heddlu neu'r CPS benderfynu na ddylid gweithredu ar y pryd, ond nad yw'r unigolyn yn fodlon y deliwyd yn briodol â'r cyhuddiadau gwreiddiol.

Gellir cyfeirio achosion at y panel gan achwynwyr unigol, yn uniongyrchol neu gan achwynwyr yn dod â'u cwyn gwreiddiol yn ôl i sylw'r heddluoedd neu Ardaloedd CPS.

Cyfnewid gwybodaeth

Yn ogystal, cyflawnwyd gwaith yn ystod 2012-13 i ailsefydlu ac ailfywiogi protocol 2003 ar gyfnewid gwybodaeth wrth ymchwilio ac erlyn achosion CSA. Datblygwyd y protocol 2003 gan Wasanaeth Erlyn y Goron, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymdeithas Llywodraeth Leol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau cyfnewid gwybodaeth effeithiol mewn achosion o'r fath. Mae'r CPS wedi derbyn yr orchwyl o arwain y gwaith hwn trwy Grŵp Protocol Trydydd Parti newydd ei ffurfio, yn cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol, sydd wedi bod yn gweithio ar Brotocol Trydydd Parti diwygiedig a'i weithrediad. Mae Llywydd yr Adran Teulu, yr Uwch Farnwr Gweinyddol a'r Comisiynydd Plant yn arsyllwyr ar y Grŵp. Bwriedir cael protocol diwygiedig, wedi ei gytuno gan yr holl randdeiliaid, yn barod erbyn diwedd haf 2013.

Panel Adfocadau Erlyn

Ym Mehefin 2013, estynnodd y DPP yr amrediad o waith achos a ellir ei gyflawni gan adfocadau treisio arbenigol yn unig i gynnwys troseddau rhywiol eraill yn ymwneud â phlant.

Mae'r rhestr treisio arbenigol nawr yn cael ei galw'r *Rhestr Arbenigwyr Treisio a cham-drin Plant yn Rhywiol*. Mae'n ofynnol i aelodau'r rhestr arbenigol hon fod yn ymwybodol o'r canllawiau dros dro newydd ar gam-drin plant yn rhywiol a bydd disgwyl iddynt gyflawni unrhyw hyfforddiant newydd fel sy'n ofynnol.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant penodol ar y gweill ar gyfer 2013-14 gydag Alison Levitt QC yn cynnal dosbarth meistr ar lefel Ardal i rannu'r gwersi. Bydd hyn yn cael ei ddarparu i arbenigwyr y CPS a'r heddlu. Mae yna hefyd gynlluniau i fasnachu ar y cyd gyda'r heddlu ar gam-drin plant yn rhywiol. Cydnabyddir hefyd y gall bod angen hyfforddiant atodol ar adfocadau i ddelio â materion o'r fath.

Estraddodiad

Dedfrydwyd diffynnydd i 12 mlynedd o garchar am dreisio ac ymosodiadau anwedus ar blant yng Nghymru yn 2012. Roedd wedi dianc ond fe'i lleolwyd yng Ngwlad Thai – cyhoeddwyd gwarant estraddodiad ac fe'i cadwyd mewn carchar yng Ngwlad Thai nes y cafodd ei gludo yn ôl i Gymru.

Gangiau

Ym Medi 2012, cynhaliodd y Swyddfa Gartref weithdy i uno detholiad o ymarferwyr i drafod materion heriol gyda, a chyflawniad gwasanaethau effeithiol i, fenywod a merched cysylltiedig â gangiau. Mynychodd ymarferwyr yn gweithio ar faterion gangiau'r gweithdy, yn ogystal â'r rhai oedd yn ymgysylltu'n benodol â menywod a merched yn gysylltiedig â gangiau.

Mae'r CPS yn gweithio gyda chydweithwyr o Uned Atal Trais a Throseddau Ieuentid y Swyddfa Gartref i symud ymlaen gyda gwaith i ymateb i 'Terfynu Trais Ganiau ac Ieuentid: Adroddiad Trawslywodraethol'. Darparodd y Swyddfa Gartref £1.2miliwn ychwanegol dros dair blynedd i wella'r gwasanaethau i bobl ifanc dan risg neu ddioddefwyr trais a chamfanteisio'n rhywiol gan gangiau. Mae'r ariannu yn cael ei ddefnyddio i benodi 13 o Adfocadau Pobl Ifanc (YPA) ar gyfer trais rhywiol a chamfanteisio, a fydd yn darparu cymorth uniongyrchol a phenodol i bobl ifanc sydd wedi bod yn ddioddefwyr neu sydd dan risg o drais rhywiol ac / neu camfanteisio'n rhywiol. Bydd y cyllid ar gael o Ebrill 2012 i Fawrth 2015.

Grŵp Llywio Trawslywodraeth Tystion Bregus ac Ofnus

Cafodd y grŵp hwn ei ailenwi ym Mawrth 2013, ac mae bellach yn cael ei alw'r "Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol" i adlewyrchu cwmpas ei waith yn well. Mae'r CPS yn parhau i fod yn aelod o'r grŵp hwn.

Masnachu mewn pobl

Yn 2012-13, erlynwyd 139 o ddiffynyddion am droseddau masnachu mewn pobl, lleihad bychan o 142 yn 2011-12, gyda chynnydd i 71% o ddeilliannau llwyddiannus⁵¹. Nodwyd yr achosion hyn yn defnyddio lluman 'masnachu'⁵² a ddefnyddir i ddarparu data deilliannau⁵³. Cynyddodd llumanu o ddiffynyddion o 48% i 73% yn y flwyddyn ddiwethaf, ond cydnabyddir bod angen gwaith pellach yn 2013-14 i sicrhau cadernid y data. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

Tabl 10: Erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn ôl deilliant

	2012 - 2013	
	Nifer	%
Euogfarnau	99	71.2%
Aflwyddiannus	40	28.8%
Cyfanswm	139	

Roedd 85% o'r holl ddiffynyddion y cofnodwyd eu rhywedd yn ddynion⁵⁴. Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed. Cofnodwyd 72 o ddiodefwr, gyda 58% yn cofnodi eu rhywedd, nifer annigonol i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Deddfwriaeth newydd

Addaswyd deddfwriaeth masnachu mewn pobl yn y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, i alluogi'r Deyrnas Unedig i gydymffurfio gyda Chyfarwyddeb yr UE ar Fasnachu Mewn Pobl. Roedd yr addasiadau yn ymestyn awdurdodaeth diriogaethol ac yn galluogi erlynyddion i erlyn achosion ble mae'r masnachu diodefwr wedi digwydd unrhyw le yn y byd, gan fasnachwr sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig. Addaswyd deddfwriaeth hefyd i droseddoli masnachu ar gyfer camfanteisio nad yw'n rhywiol sy'n digwydd yn gyfan gwbl yn y Deyrnas Unedig. Daethant i rym yn Ebrill 2013.

Roedd maes pellach ble cafwyd addasiadau yn ymwneud â dedfrydau oedd yn rhy drugarog. Yn flaenorol, dim ond troseddau o fasnachu ar gyfer camfanteisio'n rhywiol y gellid eu cyfeirio i'w hystyried, ond o Awst 2012, gellir cyfeirio dedfrydau am fasnachu i gamfanteisio heb fod yn rhywiol dan adran 4 y Ddeddf Lloches a Mewnfudo 2004 gan yr Atwrnai Cyffredinol i'r Llys Apêl i'w hystyried, ble'r ymddengys iddo fod Llys y Goron wedi pasio dedfryd oedd yn rhy drugarog.

⁵¹ Mae'r nifer fechan o achosion, ynghyd â'r diffyg llumanu cadarn, yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

⁵² Troseddau a lumanir yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59) a Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth o Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3) a Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 adran 71. Gosodir y faner ar gychwyn yr achos; bydd y faner hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid gosod baner ar y cam hwnnw.

⁵³ Ni chedwir data troseddau yn ôl diffynnydd neu ganlyniad; felly sefydlwyd lluman i ddarparu data canlyniad yn ôl diffynnydd.

⁵⁴ Cofnodwyd 99% o rywedd.

Hyfforddiant

Datblygwyd modwl e-ddysgu ar gyfer masnachu mewn pobl a'i lansio ym Mawrth 2013 i baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd.

Masnachu rhywiol

Cafwyd gŵr yn Ne Ddwyrain Lloegr yn euog o saith cyhuddiad yn ymwneud â masnachu mewn pobl o dair merch ifanc o Nigeria, gan ei garcharu am gyfanswm o 20 mlynedd. Fe'i cafwyd yn euog o dreisio, masnachu er mwyn camfanteisio'n rhywiol a'u masnachu allan o'r Deyrnas Unedig am yr un rheswm a gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn.

Mae'r CPS wedi darparu chwe seminar hyfforddi ar gyfer ymarferwyr troseddol a mewnfudo yn y Bar, Cymdeithas y Gyfraith a'r farnwriaeth i nodi dioddefwyr masnachu, menywod a phlant gan amlaf, sy'n cael eu delio i weithgaredd troseddol. Mae digwyddiadau pellach ar y gweill ar gyfer 2013-14 i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn, yn ogystal â chyhoeddi canllaw newydd i erlynyddion.

Gwaith rhyngwladol

Mae'r CPS wedi bod yn gweithio gydag ymchwilwyr ac erlynyddion o'r Iseldiroedd ar hyfforddi ac adeiladu cymhwyster yn Nigeria, sef y brif wlad ffynhonnell ar gyfer dioddefwyr masnachu yn y Deyrnas Unedig. Mae'r CPS hefyd wedi cymryd rhan mewn cyflawni hyfforddiant barnwrol yr UE ar fasnachu mewn pobl yn yr Iseldiroedd, yr Eidal, Awstria, y Weriniaeth Tsiec a Gwlad Pwyl yn ystod 2012-13.

Gweithio mewn partneriaeth:

Mae cynhwysiant yn ystod camau cynnar gyda phartneriaeth masnachu Atal Masnachu mewn Pobl Ardal Bryste yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn rhannu awvodaeth ac vn deall v materion.

Puteindra

